

# CHWARAEON CYMRU



## DOSBARTHIAD Y LOTERI
## ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

## 2019/20










Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®


CHWARAEON CYMRU

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI

**1 EBRILL 2019 – 31 MAWRTH 2020**

## ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

Enwebodd Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) Gyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) fel y corff cyfrifol am ddosbarthu'r cyllid a gynhyrchir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Mae dyletswyddau Chwaraeon Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau Loteri'n cael eu gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol ag Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a'r Datganiad o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd o dan Adran 26(3) y Ddeddf.

## RHEOLAETH

Rheolir a gweinyddir swyddogaeth y Loteri drwy Gyngor Chwaraeon Cymru a'r panelau a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru er mwyn helpu gyda dosbarthu cyllid y Loteri i achosion da yng Nghymru.

## SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW





# NEGES GAN LAWRENCE CONWAY, CADEIRYDD

**ELENI LANSIODD CHWARAEON CYMRU EIN STRATEGAETH NEWYDD. DIM OND Y DECHRAU OEDD Y LANSIAD WRTH GWRS. MAE'R GWAITH CALED AR DROED NAWR I SICRHAU EIN BOD YN 'GALLUOGI I CHWARAEON YNG NGHYMRU FFYNNU' A'N BOD YN GALLU RHANNU AC YMGORFFORI'R NOD HWN AR DRAWS Y SECTOR, GAN GYRRAEDD POB CYMUNED YNG NGHYMRU.**

Bydd partneriaethau a chydweithrediadau chwaraeon yn rhan allweddol o lwyddiant y strategaeth.

Rhaid i ni gydweithio fel bod pawb yn cael gwell cyfle i fwynhau chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn agos at ble maent yn byw ac yn gweithio.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn 'sefydliad dysgu'. Er ein bod yn falch o fod â chymysgedd amrywiol o Aelodau Bwrdd yn Chwaraeon Cymru, nid oes gennym ofn edrych ar yr heriau sy'n bodoli yn y sector chwaraeon yn ehangach. Byddwn yn parhau i frwydro dros gynhwysiant, fel bod y rhwystrau sy'n atal chwaraeon yn cael eu goresgyn.

Mae chwaraeon yn chwarae rhan fawr mewn mynd i'r afael â'r cyfraddau gordewdra dychrynllyd ymhlith pobl ifanc. Rydyn ni'n deall bod y cyfraniad at yr agenda iechyd yn sylweddol – ac rydyn ni'n gwybod bod mwy i'w wneud.

Wrth gwrs, mae cyflawniadau Cymru ar lefel elitaidd yn parhau i greu argraff. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi gweld tîm rygbi dynion Cymru yn codi cwpan y 6 Gwlad, tîm pêl droed dynion Cymru yn cymhwyso ar gyfer yr Ewros a'n gobeithion Olympaidd, gan gynnwys y bocsiwr Lauren Price a'r hwylwraig Hannah Mills, yn rheoli yn eu campau. Mae llawer mwy o gyflawniadau nodedig wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydyn ni'n croesawu llawer mwy i ddod.

**LAWRENCE CONWAY, CADEIRYDD**

# TROSOLWG PERFFORMIAD

***YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF, MAE LLAWER O ESIAMPLAU WEDI BOD O CHWARAEON YNG NGHYMRU'N DISGLEIRIO AR LEFEL ELITAIDD A CHYMUNEDOL AC MAE'N BWYSIG EIN BOD NI'N SICRHAU BOD Y DDAU FYD YMA'N RHYNGBLETHU AC YN GYD-DDIBYNNOL.***

Roedd Gwobrau Chwaraeon Cymru eleni yn achlysur nodedig iawn ac un digwyddiad penodol sy'n aros yn y cof i mi yw Alun Wyn Jones (enillydd Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn) yn rhoi amser i sgwrsio ac eisiau cael tynnu ei lun gydag enillydd y wobr i Berson Ysbrydoledig y Flwyddyn, Mia Lloyd, ac Athletwraig Ifanc y Flwyddyn, Lily Rice. Mae hyn yn dweud cyfrolau am chwaraeon yng Nghymru'n perfformio fel un ac am y sêr chwaraeon gwylaidd a didwyll mae Cymru'n eu cynhyrchu.

Rydyn ni'n eithriadol falch o'n sêr chwaraeon, o enillwyr medalau i wirfoddolwyr mewn clybiau ar lawr gwlad ac ar lefel gymunedol – sy'n cyfrannu i gyd at y cynllun i 'alluogi i chwaraeon yng Nghymru ffynnu'. Ond beth ydym yn ei olygu wrth ddefnyddio'r gair ffynnu? Gall 'ffynnu' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Ein tasg ni, yn Chwaraeon Cymru, yw cofnodi beth mae'r pethau hynny'n ei olygu i chwaraeon. Rhaid i ni fod yn hyblyg, yn barod i addasu a ffrwyno safbwyntiau ac egni'r unigolion niferus sy'n rhan o'n tirlun chwaraeon ni.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddysgu ar y cyd a ffrwyno'r manteision sydd i'w cael o amrywiaeth amlwg ein sector i sicrhau bod chwaraeon yn cyflawni'r holl les mae'n gallu ei gyflawni ar gyfer ein cymunedau ni a'n gwlad.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn eisiau gwella'r ffordd mae chwaraeon yng Nghymru'n cael eu cyllido fel eu bod yn cyd-fynd â'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'n strategaeth newydd.

Gyda chamau positif ymlaen wedi'u cymryd eisoes o ran y ffordd mae chwaraeon yn cael eu darparu, gan gynnwys Chwaraeon Gogledd Cymru a'r hwb ariannol i'n cyfleusterau ni, rydyn ni'n symud i 2020-21 gyda brwdfrydedd parhaus y mae'n hawdd ei gyfiawnhau.

Mae newid yn cynnig cyfle i ni herio ein hunain a chydweithio'n agos i ddod o hyd i atebion er lles chwaraeon yng Nghymru.

***BRIAN DAVIES, PRIF WEITHREDWR DROS DRO***



CHWARAEON CYMRU



## *EFFAITH Y CORONAFEIRWS*

Ers i ni baratoi naratif craidd yr adroddiad blynyddol hwn, daeth Pandemig byd-eang y Coronafeirws a'i oblygiadau difrifol yn realiti gwirioneddol a thywyll iawn.

Nid ydym yn gwybod beth yw'r effaith lawn eto wrth gwrs ond, yn sicr, yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol hon roedd goblygiadau uniongyrchol i'n dull ni o weithio; creu incwm; a'n cynlluniau ar gyfer cefnogaeth a darpariaeth y sector yn y dyfodol.

Er lles iechyd y cyhoedd, penderfynodd Chwaraeon Cymru gau ein swyddfeydd a'r ddwy Ganolfan Genedlaethol ar 19eg Mawrth gan ofyn i staff weithio o bell os oedd hynny'n bosib. Er bod hyn wedi arwain at darfu anochel yn y tymor byr ar ein gweithrediadau a'n systemau TGCh, hwylusodd buddsoddiad blaenorol Chwaraeon Cymru mewn technoleg fwyafrif helaeth y staff i allu gweithio'n effeithiol o gartref o fewn 72 awr i wneud y penderfyniad.

Ni fu cynnydd sylweddol yng nghyfraddau salwch y staff o ganlyniad i'r pandemig ac ni fu unrhyw absenoldebau tymor hir ymhlith personél rheoli allweddol. Gellir gweld effaith ehangach Covid-19 ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r trefniadau llywodraethu ehangach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 72.

Heb geisio tynnu oddi ar ddifrifoldeb y pandemig, mae mwyafrif yr adroddiad hwn yn amlinellu ei bod wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i chwaraeon yng Nghymru ar bob lefel a sut mae'r sector chwaraeon wedi cael effaith mor bositif ar draws amrywiaeth o agendâu eraill sy'n bwysig i gymdeithas ac i'r Llywodraeth.

Yn wir, os oes un peth positif yn deillio o sefyllfa ddwys y pandemig, y ffaith ei bod yn bwysig o hyd i'r genedl ddal ati i fod yn actif yw hynny. Nid yw'r manteision i iechyd corfforol a lles meddyliol wedi cael eu datgan mor glir erioed.

Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn ddiolchgar hefyd i staff Chwaraeon Cymru am y ffordd maent wedi ymateb a wynebu'r heriau mae argyfwng COVID-19 wedi'u cyflwyno.

# GALLUOGI I CHWARAEON YNG NGHYMRU FFYNNU

**RYDYN NI EISIAU DATGLOI MANTEISION CHWARAEON I BAWB YNG NGHYMRU. MAE STRATEGAETH NEWYDD CHWARAEON CYMRU WEDI CAEL EI CHREU GYDA HELP POBL O BOB RHAN O GYMRU.**

## I'N HATGOFFA.

MY WELSH SPORT _THE CONVERSATION
CHWARAEON A FI _Y SGWRS
Shape the future of sport in Wales.

**TACH 2017 – CHWEF 2018:**
**CHWARAEON A FI – Y SGWRS**

**GORFFENNAF 2018:**
**LANSIO'R WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU**

"Cenedl Actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes"

**CROESAWU'R WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU**

**GWANWYN 2019:**
**LANSIO STRATEGAETH CHWARAEON CYMRU**

## RYDYN NI'N MYND DRWY NEWIDIADAU.

Mae ein dull ni o weithredu'n newid. Rydyn ni eisiau parhau i ddysgu, deall ac archwilio.

Byddwn yn ceisio bod yn fwy hyblyg er mwyn gallu ymateb yn gyflymach i anghenion a chymhelliant pobl Cymru a'r cymunedau fel maent yn newid.

Byddwn yn buddsoddi ein hadnoddau'n wahanol, gan geisio ac annog cydweithredu effeithiol sydd â photensial i gael effaith bellgyrhaeddol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid presennol ond rydyn ni'n agored i weithio gyda gwahanol fathau o sefydliadau hefyd.

Byddwn yn casglu tystiolaeth i wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn barhaus.

Rydyn ni'n esblygu a byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni ar y siwrnai tuag at Gymru hapusach, iachach sy'n ymwneud llawer mwy â chwaraeon.





# DYSGU GYDA'N GILYDD

Rydyn ni wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn dweud wrth ein partneriaid ein bod eisiau perthynas onest, agored a heriol. Rydyn ni eisiau dysgu gyda'n gilydd gan wybod beth weithiodd, ond hefyd beth oedd yn aflwyddiannus. Os ydym yn disgwyl hynny gan eraill, rhaid i ni ei ddisgwyl gennym ni ein hunain, ac felly dyma ni i ddweud beth oedd yn llai llwyddiannus gennym.

## PETHAU ALLWEDDOL Y GALLEM EU GWELLA:

### AMRYWIAETH BWRDD

Roedd targed polisi o gydbwysedd 50-50 rhwng y rhywiau erbyn 2020 yn ffordd wych o godi proffil a hoelio sylw. Yn fuan gwelsom fod y bwriad, yr ymddygiad a'r dull o weithredu yr un mor bwysig. Mae'r dysgu yma wedi ein harwain at ddatblygu'r gofynion hanfodol i dynnu sylw at y cynnydd sy'n cael ei wneud gan bartneriaid.

### AROLWG AR CHWARAEON YSGOL

Gwnaed newidiadau gennym yn 2018 ond ni wnaethom eu cyfathrebu gystal ag y dylem fod wedi gwneud. Hefyd ni wnaethom gydnabod yr effaith y byddai rhai o'r newidiadau yn ei chael. Rydyn ni wedi dysgu oddi wrth hynny a byddwn yn ymgynghori'n fanylach ar arolwg 2021, gan wrando ar adborth a chynllunio'r arolwg newydd yn unol â hynny.

### EIN TÎM

Rydyn ni'n gwybod y gallem gael gweithlu mwy amrywiol a chynrychioliadol. Rydyn ni'n sefydlu dulliau newydd o recriwtio er mwyn denu rhwydwaith mwy amrywiol o ymgeiswyr ac rydyn ni wedi edrych ar gyfleoedd fel profiad gwaith ac amcanion cydraddoldeb a rennir er mwyn adlewyrchu'n well y cymunedau rydyn ni'n dymuno eu gwasanaethu.

### EIN BUDDSODDIAD MEWN PARTNERIAID

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gofyn am farn ein partneriaid ar ein proses fuddsoddi. Cawsom wybod bod gormod o oddrychedd yn ein penderfyniadau am fuddsoddi mewn partneriaid a bod partneriaid eisiau dull mwy tryloyw a hyblyg o weithredu, a llai biwrocrataidd. Drwy waith y model buddsoddi, rydyn ni'n sefydlu ffyrdd o ymateb i beth rydyn ni wedi'i glywed a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol.







# EIN BWRIADAU

Rydyn ni wedi datblygu chwe datganiad – ein bwriadau strategol – gyda chanlyniadau clir. Mae'r canlyniadau sefydliadol hyn, a fydd yn gweithredu fel ein hamcanion llesiant, yn dangos beth allwch chi ddisgwyl ei weld o ganlyniad i'n gwaith ar y cyd.

## #1 BOD YN BERSON GANOLOG

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

## #2 RHOI CYCHWYN GWYCH I BOB PERSON IFANC

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

## #3 SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

## #4 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

## #5 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

## #6 BOD YN SEFYDLIAD HYNOD WERTHFAWR

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.

# CYNLLUNIO BUSNES

Mae trosolwg perfformiad yr Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes 2019/20 ac yn tynnu sylw at esiamplau o arfer da, prosiectau parhaus, gwaith arall sydd wedi cael ei gwblhau, a heriau.

## ESIAMPLAU O'R HYN WNAETHOM ADDO EI GYFLAWNI YN YSTOD 2019/20

- ***STRATEGAETH ADNODDAU NEWYDD SY'N CYD-FYND Â'N BWRIAD STRATEGOL***
- ***ADOLYGIAD STRATEGOL O RÔL A PHWRPAS Y CANOLFANNAU CENEDLAETHOL***
- ***DULL NEWYDD O GEFNOGI A DATBLYGU PARTNERIAETHAU***
- ***ASTUDIAETH WEDI'I CHOMISIYNU O'R AMGYLCHEDD GORAU I ATHLETWYR***
- ***DULL CASGLIADOL O GEFNOGI LLEOLIADAU ADDYSGOL***
- ***FFRAMWAITH SICRWYDD PARTNERIAID NEWYDD***
- ***HWB GWYBODAETH CHWARAEON***
- ***SEFYDLIAD WEDI'I AILGYNLLUNIO AC AR EI NEWYDD WEDD***
- ***CHWARAEON GOGLEDD CYMRU***



CHWARAEON CYMRU

# BUDDSODDI MEWN CHWARAEON

### STRATEGAETH ADNODDAU NEWYDD SY'N CYD-FYND Â'N BWRIAD STRATEGOL.

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth newydd ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, a chydnabod bod rhaid i ni weithredu gydag adnoddau cyhoeddus cyfyngedig, mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn datblygu model buddsoddi newydd beiddgar a fydd yn effeithio ar sut mae partneriaid fel Cyrff Rheoli Cenedlaethol yn cael eu cyllido.

I'w gyflwyno yn 2021/22, bydd y model newydd yn annog arloesi a chydweithredu, gan roi mwy o hyblygrwydd i bartneriaid i benderfynu sut gall eu cyllid greu'r effaith fwyaf bosib.

### PENDERFYNIR AR Y CYLLID GAN DAIR ELFEN ALLWEDDOL:

## 1. GALLU
## 2. DIRNADAETH, GWYBODAETH A DATA
## 3. ATEBOLRWYDD

Bydd penderfyniadau cyllido clir a thryloyw'n cael eu cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, a bydd y pwyslais ar beth sydd wir yn bwysig, yn hytrach na beth sy'n hawdd ei fesur.












CHWARAEON CYMRU

# #1
# TROI O AMGYLCH Y PERSON

# NOFIO AM DDIM

**MAE CHWARAEON CYMRU WEDI CYDWEITHIO Â'R SECTOR I LANSIO MENTER NOFIO AM DDIM NEWYDD, O FIS HYDREF 2019 YMLAEN.**

**DYMA'R MEYSYDD BLAENORIAETH I'W CYRRAEDD:**

- **POBL IFANC O ARDALOEDD DIFREINTIEDIG**
- **POBL DROS 60 OED O ARDALOEDD DIFREINTIEDIG**

Mae'r ffocws hwn yn galluogi i ni dargedu cwsmeriaid mewn ffordd llawer mwy personol.

Mae'n gyfle i ni symud oddi wrth ganolbwyntio ar y niferoedd a rhoi mwy o bwyslais ar anghenion unigol y person a'r rhesymau dros pam byddai'n mwynhau sesiwn nofio efallai. I gefnogi partneriaid i baratoi ar gyfer lansio a chynorthwyo gyda datblygu'r fenter, cynhaliodd Chwaraeon Cymru bum digwyddiad dysgu:-

**3 DIGWYDDIAD YMGYNGHORI RHANBARTHOL**
yn denu mwy na 70 o gyfranogwyr


**2 DDIGWYDDIAD PARTNER CENEDLAETHOL**
yn denu mwy na 75 o gyfranogwyr

Mae'r fenter newydd yn gweithredu yn y 22 Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru.

Mae'n rhy gynnar i adrodd ar yr effaith hyd yma, ond mae'r arwyddion cynnar yn bositif o ran sut mae partneriaid yn gweithio gyda'r amcanion newydd a'r cynulleidfaoedd targed.

Rydyn ni'n gwybod y bydd angen amser i ddatblygu'r ddarpariaeth briodol. Mae adnoddau sylweddol yn cael eu hymrwymo i werthuso'r effaith yn ystod 2020/21.









**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**
## SOLE SISTERS

Dechreuodd Sole Sisters fel grŵp rhedeg cymdeithasol ar ôl cael ei sefydlu gan Janine Price a Kath Cross. Mae'n ofod diogel lle gall merched o unrhyw oedran a gallu ddod at ei gilydd mewn amgylchedd heb unrhyw gystadleuaeth. Maent yn ymfalchïo mewn bod yn agored i bawb, gyda'r aelodau'n amrywio o 10 oed i 80 oed. I lawer o'r merched lleol sy'n mynychu'r sesiynau, roeddent eisiau lle i fod yn fodelau rôl i'w plant – ac mae hyn wedi arwain at greu adran iau Sole Sisters. Ymgynghorodd y tîm tu ôl i Sole Sisters â'r gymuned, gyda rhai merched yn nodi gofal plant fel rhwystr sy'n atal gweithgarwch corfforol. Bellach mae llawer o sesiynau'n cael eu cynnal yn y Cwm o ganlyniad – gan gynnwys heini gyda bygi, gwersylloedd ymarfer a grwpiau cerdded i deuluoedd – gan helpu i ddiwallu anghenion yr unigolyn mewn lleoliad chwaraeon hwyliog.

# #ATHLETWRCYFLAWN

**LANSIODD CHWARAEON CYMRU YMGYRCH AR-LEIN O'R ENW 'ATHLETWR CYFLAWN' YN SEILIEDIG AR IECHYD A LLES MEDDYLIOL ATHLETWYR YNG NGHYMRU.**

Cymeradwyodd nifer o athletwyr uchel eu proffil (cyfredol ac wedi ymddeol) y negeseuon, gan gynnwys David Cotterill, Jazz Carlin, Vicky Thornley, Beth Davies, Jamie Baulch a Menna Fitzpatrick. Hefyd, cyfrannodd llawer o chwaraeon luniau o'u hathletwyr 'cyflawn', a straeon a negeseuon cefnogol (gan gynnwys neges fideo gan Ryan Giggs). Hefyd denodd yr ymgyrch sylw gan y cyfryngau, gan gynnwys trafodaeth ar Radio Wales gyda'r llysgennad Jamie Baulch a Chynghorydd Perfformiad Athrofa Chwaraeon Cymru, Zoe Eaton.

Mae'r negeseuon yn parhau gyda'r pynciau sy'n cael eu trafod yn cynnwys paratoi ar gyfer bywyd ar ôl chwaraeon, sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a chwaraeon, a manteision lles ar gyfer datblygiad athletwyr.

# ATHROFA CHWARAEON CYMRU AC IECHYD MEDDWL ATHLETWYR

Mae Athrofa Chwaraeon Cymru wedi parhau i hwyluso ehangu'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gyfer staff perfformiad (yn cael ei gyflwyno gan arweinydd Iechyd Meddwl Athletwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Dr Mikel Mellick). Mae hyfforddwyr, Cyfarwyddwyr Perfformiad ac ymarferwyr gwyddoniaeth a meddygaeth chwaraeon Bocsio Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Gymnasteg Cymru, Jiwdo Cymru, Nofio Cymru, Athletau Cymru a Beicio Cymru wedi cwblhau'r cwrs achrededig 12 awr, 'Training in Mind'.

Hefyd mae'r Athrofa wedi drafftio'r adnoddau canlynol:

- Cefnogaeth gyda phrofedigaeth i'r rhai sy'n profi colled oherwydd marwolaeth drwy hunanladdiad
- Rheoli digwyddiadau gofidus mewn amgylchedd tîm mewn Gemau Mawr

Mae'r adnodd cyntaf wedi cael ei rannu'n ddiweddar gyda staff ehangach a phartneriaid allweddol. Mae'r ddau wedi cael eu rhannu gyda phanel Arbenigwyr Iechyd Meddwl UK Sport.






CHWARAEON CYMRU

***CHWYDDWYDR AR CHWARAEON***

## GYMNASTEG CYMRU

***– DULL O WEITHREDU SY'N TROI O AMGYLCH Y PERSON***

Ymgynghorodd tîm perfformiad Gymnasteg Cymru â rhieni eu sgwadiau elitaidd er mwyn gwella'r profiad cyffredinol i'r plentyn a'r rhiant. Roedd y rhieni eisiau gwell dealltwriaeth o'r llwybr elitaidd ac angen cyfarwyddyd i gefnogi eu plentyn o ran maeth, cysgu, adfer a lles y meddwl. O ganlyniad i'r adborth hwn, cyflwynwyd gweithdai 'cyflwyniadol' i rieni a daethpwyd ag arbenigwyr i mewn i roi sylw i'r pynciau hynny. Hefyd, mae rôl 'Rheolwr Athletwyr' newydd wedi cael ei chreu i gefnogi unrhyw un mewn sgwadiau iau neu hŷn. Mae'r rôl yn edrych ar gynlluniau cyfannol ar gyfer addysg, hyfforddiant a lles.





CHWARAEON CYMRU

CHWARAEON CYMRU

# #2
# RHOI CYCHWYN GWYCH I BOB PERSON IFANC

# ADDYSG

***DULL CASGLIADOL O GEFNOGI LLEOLIADAU ADDYSGOL.***

## CWRICWLWM I GYMRU 2022

Cyhoeddwyd y Cwricwlwm adolygedig i Gymru ym mis Ionawr 2019. Mae Chwaraeon Cymru yn falch o weld mwy o le i chwaraeon yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae hyn yn dilyn adborth fel rhan o'r ymgynghoriad. Hefyd rydyn ni'n falch o weld ei fod yn parhau'n seiliedig ar lythrennedd corfforol. Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn edrych ar sut orau allwn ni gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon i weithredu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

## ARWEINWYR IFANC

Mae 15 o Lysgenhadon Ifanc o bob cwr o Gymru wedi dod y 5ed grŵp i gwblhau'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol sy'n cael ei chefnogi gan Chwaraeon Cymru a'r Youth Sport Trust. Cymerodd y 12 merch a'r tri bachgen o blith y Llysgenhadon Ifanc ran mewn penwythnosau preswyl oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau allweddol fel hwyluso, cyflwyno a rhwydweithio wrth wella eu hyder i helpu i alluogi i chwaraeon yng Nghymru ffynnu.













***CHWYDDWYDR AR CHWARAEON***

### CYNHADLEDD 10FED PEN BLWYDD Y LLYSGENHADON IFANC

***– TACHWEDD 2019***

Dathlodd Chwaraeon Cymru raglen y Llysgenhadon Ifanc wrth iddi gyrraedd carreg filltir o ddeng mlynedd.

Ar y cyd â'r Youth Sport Trust, cynlluniodd, trefnodd a chyflwynodd grŵp llywio cenedlaethol y Llysgenhadon Ifanc gynhadledd ar gyfer 100 o Lysgenhadon Ifanc Aur newydd o bob cwr o Gymru. Y nod oedd eu hysbrydoli i ddal ati i wneud newidiadau positif yn eu hysgolion a'u cymunedau drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Daeth nifer o gyn Lysgenhadon Ifanc draw i rannu eu stori am sut mae bod yn Llysgennad Ifanc wedi eu helpu drwy addysg ac i gyflogaeth.

Mae'r prosiect yn waddol hynod lwyddiannus i Lundain 2012, gyda thua 4,000 o Lysgenhadon Ifanc wedi'u recriwtio a'u hyfforddi bob blwyddyn, o Efydd i Blatinwm, a thua 20,000 o Lysgenhadon Ifanc ledled Cymru ers 2010.

# PLAY MAKERS

## 11,000 O ARWEINWYR


**WEDI'U HYFFORDDI YN YSTOD 6 MIS CYNTAF 2019/20 GAN GYNNWYS**

## 2,500 AR LEFELAU 1, 2 A 3 (13+)

**AC**

## 8,000 O PLAYMAKERS (9+)




## 16 ALLAN O'R 22 ALl


yn cyflwyno'r Dyfarniad PlayMaker yn awr i 'bob' disgybl Blwyddyn 5 yn eu siroedd, i'w cychwyn ar eu siwrnai arweinyddiaeth a'u cefnogi i gyflwyno cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu hysgolion.

Mewn sawl achos, mae'r PlayMakers yn cael eu cefnogi gan Lysgenhadon Ifanc Efydd ym Mlwyddyn 6, sy'n cefnogi hyrwyddo, eirioli a darparu'r gweithgareddau PlayMaker.

## 31 O DIWTORIAID NEWYDD WEDI'U HYFFORDDI

**A**

## 26 WEDI CAEL HYFFORDDIANT GLOYWI












**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**

## ALL STARS CRICKET

**– LEDLED CYMRU**

Mae All Stars Cricket wedi helpu miloedd lawer o blant dan 8 oed yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i ddatblygu hoffter o'r gêm, gyda llawer o sgiliau motor corfforol wedi'u cynnwys hefyd!

Felly pam mae All Stars (5 i 8 oed) wedi bod mor llwyddiannus? Mae'r cynllun yn hawdd cofrestru ar ei gyfer ac yn hygyrch i bawb, gyda mwy na 125 o ganolfannau ledled Cymru.

Mae ei lwyddiant ymhlith plant wedi helpu i godi proffil clybiau criced lleol. Gyda diddordeb newydd yn y gêm, mae'r galw wedi cynyddu ar gyfer y grwpiau oedran nesaf – ac wedi rhoi cychwyn i Dynamos Cricket.

Mae All Stars a Dynamos Cricket wedi rhoi cyfle i ferched a bechgyn flasu camp newydd ac mae'r cwricwlwm o weithgareddau a gemau criced hwyliog yn meithrin sgiliau symud sylfaenol plant er mwyn rhoi cychwyn ar hoffter oes o chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Hefyd, mae'r cynlluniau'n gallu gweithredu diolch i wirfoddolwyr ac maent wedi profi'n llwyddiant enfawr o ran cael rhieni i gymryd rhan.








CHWARAEON CYMRU

# #3
# SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON

# EIN GRANTIAU

## Y GIST GYMUNEDOL



**CYFANSWM Y DYFARNIADAU: 1341**
**CYFANSWM A DDYFARNWYD: £1,624,314**
**TRECHU ANGHYDRADDOLDEB: 303**

| PRIF FFOCWS | CYFANSWM A DDYFARNWYD | NIFER Y DYFARNIADAU |
|---|---|---|
| DLIE | £22,420 | 17 |
| Datblygu clybiau | £1,082,676 | 896 |
| Anabledd | £98,372 | 77 |
| Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LGB&T) | £1,215 | 1 |
| Arall | £121,447 | 99 |
| Yr iaith Gymraeg | £4,245 | 3 |
| Merched a genethod | £219,933 | 178 |
| Gweithlu | £74,006 | 70 |

## GRANTIAU DATBLYGU



**CYFANSWM Y DYFARNIADAU: 44**
**CYFANSWM A DDYFARNWYD: £819,254**

| PRIF FFOCWS | CYFANSWM A DDYFARNWYD | NIFER Y DYFARNIADAU |
|---|---|---|
| Datblygu clybiau | £330,206 | 24 |
| Anabledd | £114,304 | 7 |
| Arall | £353,080 | 10 |
| Merched a genethod | £21,664 | 3 |





# LLE I CHWARAEON

**YN 2019, NEILLTUODD LLYWODRAETH CYMRU £5M O GYLLID LLE I CHWARAEON ER MWYN DYFARNU GRANTIAU A ALLAI WELLA, DIOGELU NEU GREU CYFLEUSTERAU CHWARAEON NEWYDD YNG NGHYMRU.**

Roedd yr arian o gymorth i gyllido'r canlynol:

**MWY NA 150 O BROSIECTAU**

**28 O WAHANOL CHWARAEON**

Roedd y prosiectau'n amrywio o draciau beicio newydd i adnewyddu ystafelloedd newid a chaeau artiffisial newydd, gosod llifoleuadau yn eu lle a robotiaid hyfforddi tennis bwrdd!

***118 O GLYBIAU A SEFYDLIADAU WEDI DERBYN CYLLID Y GWNAED CAIS AMDANO DRWY GRONFA AGORED GWERTH £1M.***

Cyflwynwyd cyfanswm o ***319*** o geisiadau i'r gronfa agored (gyda'r ceisiadau'n werth mwy na £15 miliwn a chyfanswm costau'r prosiectau'n fwy nag £20 miliwn).

Oherwydd y dyhead enfawr am ragor o welliannau ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo ***CYLLID LLE I CHWARAEON GWERTH £3M I CHWARAEON CYMRU YN 2020-21*** fel rhan o gynllun cyflawni Cymru Iach Pwysau Iach i wella, diogelu neu greu cyfleusterau chwaraeon newydd ledled y wlad.

Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

**£1M I GAEAU ARTIFFISIAL**

**CRONFA AGORED O £2M**

# Y GRONFA IACH AC EGNÏOL

Mae 17 o brosiectau ledled Cymru wedi derbyn cyfanswm o £5.4m o gam cyntaf y Gronfa Iach ac Egnïol sy'n cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**NOD Y CYLLID YW GWELLA IECHYD MEDDYLIOL A CHORFFOROL DRWY ALLUOGI MABWYSIADU FFYRDD IACH AC ACTIF O FYW LEDLED CYMRU.**

Mae arian wedi cael ei ddyfarnu i sefydliadau sy'n hybu ac yn galluogi gweithgarwch iach ar gyfer un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- **PLANT A PHOBL IFANC**
- **POBL AG ANABLEDD NEU SALWCH TYMOR HIR**
- **POBL SY'N ANWEITHGAR YN ECONOMAIDD NEU SY'N BYW MEWN ARDALOEDD O AMDDIFADEDD**
- **POBL HŶN A'R RHAI TUA OEDRAN YMDDEOL O'R GWAITH**

## DYMA'R PROSIECTAU LLWYDDIANNUS:

**'ATGOFION CHWARAEON'** - Sporting Memories Network CIC
**'TYFU GYDA'N GILYDD'** - Cadwch Gymru'n Daclus
**'BYWYDAU CYTBWYS AR GYFER CARTREFI GOFAL'** - Ymddiriedolaeth Action for Elders
**'HAPUS'** - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
**'SUPER-AGERS'** - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
**'BETH AM GERDDED GORLLEWIN CYMRU'** - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
**'COED ACTIF CYMRU'** - Smallwoods Association - Coed Lleol
**'RHAGLEN BLYNYDDOEDD CYNNAR ACTIF CYMRU'** - Blynyddoedd Cynnar Cymru
**'CASNEWYDD IACH AC ACTIF'** - Newport Live
**'LLYSGENHADON CHWARAE'** - Chwarae Cymru
**'BABI ACTIF'** - Eryri-Bywiol Cyf
**'PROSIECT CORFF IACH - MEDDWL IACH'** - Women Connect First
**'5 LLWYBR AT LESIANT'** - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
**'STREETGAMES'** - Street Games UK Ltd
**'AGOR DRYSAU I'R AWYR AGORED'** - Y Bartneriaeth Awyr Agored
**'CYFEILLION CERDDED CYMRU'** - Living Streets Cymru
**'BEACTIVE RCT'** - Interlink RCT









**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**

### CHWARAEON DLIE

**PROSIECT CORFF IACH – MEDDWL IACH – WOMEN CONNECT FIRST**

Cenhadaeth Women Connect First yw grymuso a gwella bywydau merched a chymunedau DLIE difreintiedig yn Ne Cymru, i'w helpu i wireddu eu llawn botensial a gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas Cymru. Cawsant gyllid drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol. Un esiampl o'r prosiectau maent wedi'u cyflwyno yw partneriaeth newydd gyda grŵp merched o bwyllgor rheoli Mosg Madina. Trefnwyd Diwrnod Agored yn ystod hanner tymor mis Chwefror 2020 a ddenodd fwy na 200 o ferched a phlant. Ymhlith y gweithgareddau roedd sesiynau blasu Ioga a Dawnsio Heini i ferched a phlant, gorsafoedd cyngor am iechyd a maeth, seminar a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglenni sgrinio, ac ymgynghoriad ar y gweithgareddau maent eisiau cymryd rhan ynddynt yn y dyfodol.

# CHWARAEON ANABLEDD

***MAE TÎM LLWYBR PERFFORMIAD CHWARAEON ANABLEDD CYMRU WEDI EHANGU EI HYBIAU LLWYBR PERFFORMIAD I ALLUOGI MWY O GYFLEOEDD AR GYFER ATHLETWYR ANABL YNG NGHYMRU, I DDATBLYGU EU SGILIAU A'U DIDDORDEBAU.***

Mae sesiynau'n cael eu cyflwyno ddwywaith y mis o hyd yn Hwb y Gorllewin yn Aberystwyth, gan ddarparu gweithgareddau aml-sgiliau a chryfder a chyflyru ar gyfer hyd at 19 o gyfranogwyr.

Mae sesiwn aml-chwaraeon newydd wedi cael ei sefydlu yn Hwb y De yng Nghaerdydd i ddarparu cyfle i gyfranogwyr ddod yn rhan o'r rhaglen o oedran ifanc, mewn amgylchedd heb fod yn benodol i chwaraeon. Mae hyn hefyd yn golygu y gall sesiwn presennol yn Hwb y De gael ei addasu i fod yn sesiwn athletau pwrpasol yn seiliedig ar berfformiad.

Mae trafodaethau wedi dechrau nawr i greu Hwb y Gogledd mewn partneriaeth â'r tîm cymunedol i ddatblygu eu dealltwriaeth o beth all y llwybr ei ddarparu a phwy all gael eu cyfeirio. Bydd y model hwn yn sicrhau bod cyfle i bobl anabl o bob rhan o Gymru gael eu canfod, eu proffilio, datblygu diddordeb a gwneud cynnydd pellach ar hyd y llwybr perfformiad mewn chwaraeon anabledd.

# MERCHED A GENETHOD

***#WATCHHERGO***

Helpodd Chwaraeon Cymru i lansio menter Women in Sport, #WatchHerGo, yng Nghymru. Roedd y lansiad yn y Senedd yn cynnwys cymysgedd o siaradwyr uchel eu proffil, gan gynnwys Claire Balding, ac roedd o help i gyflwyno'r cefndir ar gyfer dyfodol chwaraeon merched yn y wlad. Yn cynnwys cyfranogiad, perfformiad, gwirfoddoli, hyfforddi ac arweinyddiaeth, nod y mudiad yw cynyddu pa mor amlwg yw merched mewn chwaraeon.

# CHWARAEON SY'N PONTIO'R CENEDLAETHAU

Mae Llysgenhadon Ifanc wedi ymweld â phobl hŷn er mwyn darparu sesiynau gweithgarwch iach a hwyliog. Mae'r ddwy neges ganlynol ar gyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at esiamplau gan Chwaraeon Powys a Ceredigion Actif.








***CHWYDDWYDR AR CHWARAEON***

## YR URDD, YR IAITH GYMRAEG A CHWARAEON

Mae mudiad yr Urdd yn derbyn cyllid yn flynyddol gan Chwaraeon Cymru. Y nod yw defnyddio pŵer yr iaith Gymraeg i ddenu plant, pobl ifanc a theuluoedd a'u cael i gymryd rhan mewn chwaraeon o wythnos i wythnos – am oes. Mae rhaglenni 'Chwaraeon Bach' yr Urdd yn annog teuluoedd i gymryd rhan mewn amgylchedd hwyliog a chreadigol, gan gyflwyno sgiliau datblygiad motor sylfaenol i blant drwy chwarae. Ledled De a Gorllewin Cymru, mae 'Chwaraeon Bach' bellach yn cynnwys cyfleoedd eang i'r cyfnod sylfaen mewn chwaraeon amrywiol, gan gynnwys pêl droed, rygbi, pêl rwyd, gymnasteg ac aml-sgiliau, gan gyfrannu tuag at les cyfannol plant drwy ddatblygu Llythrennedd Corfforol.




### CHWYDDWYDR AR CHWARAEON

## AMRYWIAETH BWRDD CYRFF RHEOLI CENEDLAETHOL A PHARTNERIAID CENEDLAETHOL ALLWEDDOL

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2018, cytunodd Bwrdd Chwaraeon Cymru ar bolisi i bob CRhC ar gyfer chwaraeon a phob partner cenedlaethol sicrhau cydraddoldeb y rhywiau (diffiniad Comisiwn yr UE o gydraddoldeb y rhywiau yw o leiaf 40% o ferched neu ddynion ar fwrdd).

Mae newid diwylliannol mawr wedi bod o 'pam mae arnom ni angen bwrdd amrywiol a chynhwysol?' i 'sut gallwn ni ddatblygu bwrdd amrywiol a chynhwysol?' sydd wedi arwain at ffocws â'i sylw ar atebion.

Mae saith sefydliad wedi cyflawni'r polisi, gyda phum pellach ond ychydig bwyntiau % o wneud hynny. Mae hwn yn gynnydd o gymharu â phedwar sefydliad ym mis Gorffennaf 2018.

Mae cynlluniau gweithredu gan 16 partner wedi ymrwymo i ddarparu cynllun erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae gan Amrywiaeth Bwrdd broffil llawer uwch yn fewnol, ac mae iddo le amlwg ar wefan Chwaraeon Cymru ac mae'r pwnc yn cael sylw drwy gyfres o ddigwyddiadau.





### CHWARAEON CYMRU

# #4 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR

# CHWARAEON RHANBARTHOL

## CHWARAEON GOGLEDD CYMRU

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru wedi gwneud y canlynol:

- **CYTUNO AR FODEL LLYWODRAETHU**
- **DATBLYGU FFRAMWAITH CANLYNIADAU STRATEGOL A CHYNLLUN CYFLAWNI BLWYDDYN UN**
- **DATBLYGU EI ACHOS BUSNES TERFYNOL**

Mae'r ehangu ar gyfer y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol wedi dechrau ar draws rhannau eraill o Gymru:

**3 DIGWYDDIAD YMGYSYLLTU Â'R SECTOR** wedi'u cynnal ar draws de Cymru ym mis Mehefin 2019.

**180** o unigolion wedi mynychu o tua **90** o sefydliadau

**3 DIWRNOD DATBLYGU PARTNERIAETHAU** wedi'u cynnal ym mis Hydref 2019.

Wedi'u mynychu gan **80** o gyfranogwyr o **44** o sefydliadau

**43** o Fynegi Diddordeb

## LLYWODRAETHU CHWARAEON

Cafodd y Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru (GLFW) ei gyflwyno i ddechrau yn 2015 ond cafodd ei adolygu gyda phartneriaid a'i ailysgrifennu yn 2019 er mwyn sicrhau ei fod yn ddiweddar ac yn cyd-fynd â newidiadau gwleidyddol a pholisi.

Ers ei lansio, mae wedi profi'n adnodd hynod werthfawr – gan y sector, ar gyfer y sector – ac wedi gweld Cymru'n arwain y ffordd yn y maes gwaith hwn.

Ei nod yw helpu sefydliadau o bob math a maint i ddatblygu strwythurau cadarn ac ymddygiad o ansawdd uchel, fel eu bod yn gwbl barod i fod y gorau y gallant fod.

Mae'n cynnwys saith egwyddor ac ymddygiad allweddol y dylai byrddau eu defnyddio i helpu i arwain sefydliad. Drwy fabwysiadu'r Fframwaith, gall sefydliadau feincnodi eu cynnydd yn haws, a pharhau i wella.





## RHAGLEN FENTORA

Mae Chwaraeon Cymru wedi cefnogi 13 aelod o Rwydwaith Hyfforddi Cymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o fentora a'r cyfraniad y gall ei wneud at amgylchedd datblygu hyfforddwyr eu sefydliadau drwy raglen fentora 18 awr.

## ATHROFA GWYDDONIAETH PERFFORMIAD CYMRU (WIPS)

Mae WIPS yn bartneriaeth tair ffordd rhwng Chwaraeon Cymru, gwyddonwyr chwaraeon academaidd blaenllaw Cymru a phartneriaid diwydiant perthnasol. Gyda'i gilydd, mae'r bartneriaeth yn cynnal ymchwil effaith uchel yn unol â strategaethau Chwaraeon Cymru, gan annog a sicrhau'r ymchwil, yr arloesi a'r dechnoleg ddiweddaraf orau bosib i helpu i wella perfformiad athletwyr ein gwlad.

### MAE'R PROSIECTAU YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF A PHARHAUS YN CYNNWYS Y CANLYNOL:

Gweithio gydag 'athletwyr benywaidd' i weld sut mae'r misglwyf yn effeithio ar berfformiad. I ddechrau, cynhaliwyd cyfweliadau gydag athletwyr benywaidd er mwyn deall eu profiadau. Yn dilyn hyn a chan ddefnyddio gwybodaeth, mae addysg hyfforddwyr a rhieni'n cael ei datblygu a'i chyflwyno i chwaraeon niferus.

Mae Athrofa Chwaraeon Cymru yn cefnogi jiwdo gyda ffisiotherapi, cryfder a chyflyru a ffisioleg. Adolygodd WIPs yr wybodaeth am ofynion cystadlu a chymarebau gwaith a gorffwys. Roedd cyfle wedyn i seilio'r ymarfer ar gefnogi'r sesiynau cyflyru mwyaf priodol.

Nod y prosiect Dysgu Hyfforddwyr oedd deall sut mae oedolion yn dysgu, yn cadw gwybodaeth ac yn ei defnyddio. O ganlyniad, mae'r prosiect wedi galluogi i ni weithredu ar sail tystiolaeth i ddatblygu hyfforddwyr a gwella'r gefnogaeth a ddarperir i hyfforddwyr yn genedlaethol.

Un rôl allweddol gan y tîm seicoleg chwaraeon yw gweithio gydag unigolion i gefnogi eu lles personol a'u datblygiad athletig. Mae'r prosiect Amgylcheddau Ffyniannus yn datblygu ein dealltwriaeth o sut mae pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon (e.e. athletwyr, hyfforddwyr) yn ffynnu'n effeithiol.

**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**

### CYDWEITHREDIAD 'THE NON-PERFECT DAD'

**DIWEDD 2019 A DECHRAU 2020**

Daeth Gymnasteg, Criced, Athletau a Hoci at ei gilydd i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i rieni ac athletwyr. Aeth Richard Shorter, sy'n cael ei adnabod hefyd fel "The Non-Perfect Dad", ati i ateb y cwestiwn: sut mae rhieni'n sicrhau bod y gefnogaeth maent yn ei darparu'n cynnig y cyfle gorau i wireddu'r potensial hwnnw? Edrychodd y sesiynau ar sut orau i gefnogi plant mewn chwaraeon, o lefel clwb i lefel elitaidd. Roedd yn esiampl o chwaraeon yn dod o hyd i nod cyffredin a chynllunio'r sesiynau gyda'i gilydd.








CHWARAEON CYMRU

# #5 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON

# DATHLU CHWARAEON YNG NGHYMRU

***DAETH SÊR MAWR Y BYD CHWARAEON I'R CELTIC MANOR YM MIS RHAGFYR AR GYFER GWOBRAU CHWARAEON CYMRU 2019.***

Drwy gyfrwng yr enillwyr, y rhai a gyfrannodd y gwobrau a'r gwesteion, roedd y digwyddiad o help i arddangos pŵer chwaraeon a dathlu eu cyrhaeddiad eang.

Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd gan Chwaraeon Cymru a BBC Cymru Wales ac roedd yn gyfle i gydnabod y gorau un mewn chwaraeon cymunedol ledled y wlad, yn ogystal â'n harwyr chwaraeon elitaidd.

Cafwyd ymgyrch enwebu benodol gyda mwy nag erioed o enwau'n dod i law ar gyfer y categorïau cymunedol.

Yn hawlio'r sylw i gyd ar gyfer chwaraeon ar lawr gwlad ar y noson roedd ***MIA LLOYD*** (Person Ysbrydoledig), ***CWPAN Y BYD Y DIGARTREF*** (Stori Chwaraeon Wych), ***GOODGYM CAERDYDD A'R FRO*** (Creu Cymru Actif) a ***CHADWYN HYFFORDDI HANNAH MILL.***

Yn y byd elitaidd ac mewn blwyddyn fawr i rygbi'r undeb, enwyd Warren Gatland yn Hyfforddwr y Flwyddyn, cafodd sgwad rygbi Cymru wobr Tîm y Flwyddyn ac Alun Wyn Jones a ddewiswyd fel Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn. Cafodd y cawr o fyd bocsio, Joe Calzaghe, wobr Cyflawniad Oes ac enillodd Lily Rice ac Etienne Chappell wobrau Carwyn James.

Cyflwynwyd y Gwobrau gan Gethin Jones a Catrin Heledd.











***CHWYDDWYDR AR CHWARAEON***

## ***MIA LLOYD***

***ENILLYDD PERSON YSBRYDOLEDIG Y FLWYDDYN YNG NGWOBRAU CHWARAEON CYMRU 2019***

Yn ôl ym mis Mai 2017, cafodd Mia (sydd yn y llun) ddiagnosis o fath prin o ganser yr esgyrn o'r enw Osteosarcoma yn ei ffemwr chwith. Roedd ganddi boen annifyr yn ei phen-glin ac roedd yn waeth pan oedd yn ymarfer. Lledodd y canser i'w hysgyfaint. Cafodd 10 mis o gemotherapi llym yn Ysbyty Plant Arch Noa yng Nghaerdydd. Dewisodd gael torri ei choes uwch ben y pen-glin – penderfyniad anodd ond wedyn roedd cyfle iddi ailddechrau rhedeg trac cyn gynted â phosib. Meddwl am ddychwelyd at chwaraeon oedd yn cynnal Mia yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty. Cafodd ei chyflwyno i Gemma Cutter (Chwaraeon Anabledd Cymru) a esboniodd yr holl gyfleoedd oedd ar gael iddi. Ei nod yw cael llafn rhedeg a ddylai wneud ei breuddwyd o redeg ychydig yn haws. Mae wrth ei bodd gyda chwaraeon a rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae'n cymryd rhan mewn pêl fasged cadair olwyn, nofio a golff. Mae hi hefyd wedi rhoi cynnig ar ddringo, sgïo addasol a phara-feicio.

# PEN BLWYDD HAPUS I'R LOTERI GENEDLAETHOL

Fe wnaethom ni helpu i ddathlu pen blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed yn hydref 2019. Wrth iddi droi'n 25, cynigiodd gyfle i gydnabod y buddsoddiad mae wedi'i ddarparu i chwaraeon yng Nghymru yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf.

**MAE MWY NA £309 MILIWN WEDI CAEL EI ROI I BRON I 26,000 O BROSIECTAU LEDLED CYMRU.**

Manteisiodd Chwaraeon Cymru ar y cyfle i lansio sioe gylchgrawn ar-lein newydd, Calon Chwaraeon Cymru, a'i nod yw arddangos y gorau mewn chwaraeon ledled Cymru.

Gweithiodd Chwaraeon Cymru gydag Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol i sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru'n cael proffil uchel yn yr ymgyrch genedlaethol a bod effaith drawsnewidiol y cyllid ar chwaraeon yn cael ei chydnabod.

# GWERTH CHWARAEON I GYMRU

Y llynedd canfu'r adroddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad y canlynol

**AM BOB £1 A FUDDSODDIR MEWN CHWARAEON YN Y WLAD, MAE ELW O £2.88**

£1
£2.88

a swm enfawr o **£3.4 BILIWN** o fanteision i gymunedau Cymru. Rydyn ni'n parhau i roi sylw mawr i #GwerthChwaraeon drwy ryddhau data newydd Pwysigrwydd Economaidd Chwaraeon yng Nghymru 2016/17 – a luniwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam.

Mae'n dangos bod y diwydiant chwaraeon wedi cynyddu i **£1,142M** (i fyny 10% ers 2010). Creodd **29,700** o swyddi cysylltiedig â chwaraeon yn ystod yr un flwyddyn. Hefyd canfuwyd bod y sector chwaraeon yn rhagori ar y diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru o ran perfformiad.










### CHWYDDWYDR AR CHWARAEON

## STADIWM Y PRINCIPALITY

Dangosodd asesiad o effaith economaidd Stadiwm y Principality bod yr amcangyfrif o'i werth i economi Cymru yn £32.3m o ran gweithgarwch / allbwn economaidd ychwanegol i Gymru gyda £11m o'r swm yn werth gros ychwanegol.

Cefnogodd calendr digwyddiadau'r stadiwm bron i 400 o swyddi cyfwerth â llawn amser, ar safle'r stadiwm ac mewn llefydd eraill yng Nghymru drwy ei gadwyn gyflenwi.

Canfu ein hadroddiad ar effaith economaidd chwaraeon bod yr economi chwaraeon wedi cyfrannu £1,182m at Wariant Defnyddwyr ac wedi creu 29,700 o swyddi cysylltiedig â chwaraeon (yn 2016/17).

# SEFYDLIADAU DYSGU

### RHAGLEN CYFATHREBU, DYSGU A DIRNADAETH (CLIP)

**ADDYSGU'R SECTOR**

Mae CLIP yn darparu mynediad rheolaidd at gyfleoedd addysg a hyfforddiant ar gyfer partneriaid Chwaraeon Cymru.

Yn dilyn arbrawf llwyddiannus, yn cael ei farnu fel llwyddiant 100% gan sector chwaraeon Cymru, lansiwyd ein rhaglen ddysgu newydd gennym yn swyddogol.

Dull o weithredu ar y cyd gan dimau cyfathrebu a dirnadaeth Chwaraeon Cymru – mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar feysydd fel dangos tystiolaeth o effaith, defnyddio data, cyfryngau cymdeithasol, a defnyddio technoleg i farchnata.

Mae CLIP yn cael cymhorthdal gan Chwaraeon Cymru er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n fforddiadwy ar gyfer yr amrywiaeth o sefydliadau sy'n rhan o sector chwaraeon Cymru. Mewn arolwg diweddar, dywedodd 95% bod y rhaglen CLIP wedi profi'n fuddiol i'w gwaith eisoes.


# RHANNU GWYBODAETH

O dan ymbarél rhaglen ddysgu uchel ei pharch Chwaraeon Cymru, CLIP, cynhaliwyd cyfres o sesiynau arddull cyflwyno er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gydag eraill. Rhannodd staff Chwaraeon Cymru a phartneriaid allanol brofiadau mewn sesiynau rhyngweithiol ac egnïol, yn ceisio sbarduno trafodaethau a syniadau.

**AMCANION:**

- ANNOG CYDWEITHREDU RHWNG SEFYDLIADAU NEU AR DRAWS Y SECTOR
- RHANNU'R GWERSI A DDYSGWYD O'R PWNC
- RHOI HWB I HYDER YN STRATEGAETH CHWARAEON CYMRU
- TRAFOD Y SEFYLLFA POLISI YN Y SECTOR









**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**

### SESIWN CLIP: SUT I DDANGOS YR EFFAITH RYDYN NI'N HELPU I'W CHREU

**TACHWEDD 2019**

Bu sesiwn cwbl lawn gydag 80 yn bresennol yn trafod y symud oddi wrth fesur data i brofi llwyddiant at ddefnyddio data i ddysgu a gwella. Roedd y sesiwn o help i esbonio pa effaith mae chwaraeon yn ei chael ar Gymru. Cafodd pawb oedd yn bresennol well dealltwriaeth o sut gallant ddangos y gwahaniaeth mae eu gwaith yn ei wneud i Gymru ar lefel sefydliad ac unigol.

Ymhlith y siaradwyr roedd:

- Dr Larissa E Davies, Darllenydd mewn Rheolaeth Chwaraeon yng Nghanolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam;
- Bethan Smith, Rheolwr Rhaglen ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion yn Cognitive Edge
- Andrew Thomas, Rheolwr Grŵp – Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr
- Owen Lewis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strategaeth Systemau Chwaraeon a Gwasanaethau yn Chwaraeon Cymru

Cynhaliwyd ail sesiwn i drafod pam mae'n bwysig i'r ddarpariaeth chwaraeon ar gyfer pobl ifanc fod yn berson-ganolog a SUT i wneud hynny. Mae mwy o sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.








CHWARAEON CYMRU

# #6
# BOD YN SEFYDLIAD HYNOD WERTHFAWR

# AILGYNLLUNIO

### SEFYDLIAD WEDI'I AILGYNLLUNIO AC AR EI NEWYDD WEDD.

Mae'r broses ailgynllunio a recriwtio ar droed, yn dilyn cam ymgynghori sydd wedi'i gwblhau. Bydd Chwaraeon Cymru ar ei newydd wedd yn gweithio yn unol â bwriadau strategol y sefydliad. Y gobaith yw cwblhau'r broses erbyn diwedd y Gwanwyn.


# SAFBWYNTIAU DEFNYDDWYR

### ATHROFA CHWARAEON CYMRU


Gwahoddwyd pob athletwr, hyfforddwr a chyfarwyddwr perfformiad (amcangyfrif o 155 o bobl) sy'n defnyddio gwasanaethau cefnogi pwrpasol yr Athrofa i gwblhau Arolwg Athrofa Chwaraeon Cymru 2019 yn ystod mis Medi.



Y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf yw therapi meinwe meddal, ffisiotherapi a maeth perfformiad, a'r gwasanaethau a ddefnyddir leiaf cyffredin yw ffisioleg a dadansoddi perfformiad.




Mae 80% o'r athletwyr yn mesur gwasanaethau'r athrofa fel naill ai 'da' neu 'ragorol', sy'n gynnydd o saith pwynt canran o gymharu â 2017.




Dywedodd 71% o'r hyfforddwyr a'r cyfarwyddwyr perfformiad bod gwasanaethau'r Athrofa naill ai'n 'dda' neu'n 'rhagorol', sy'n gynnydd o bum pwynt canran o gymharu â dwy flynedd yn ôl.











# CANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU



Cafwyd gradd ragorol yn QUEST, Cynllun Ansawdd y DU ar gyfer Chwaraeon a Hamdden





93% o'r defnyddwyr wedi cael profiad positif (da neu dda iawn) o'u hargraff gyffredinol o'r Ganolfan.





88% o'r defnyddwyr wedi cael profiad positif (da neu dda iawn) o ran y gwerth am arian a ddarparwyd gan y Ganolfan.

# CANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL PLAS MENAI




97% o ddefnyddwyr Plas Menai wedi cael argraff gyffredinol bositif o'r safle.




94% wedi cael profiad positif o'r gwerth am arian sy'n cael ei ddarparu gan y Ganolfan.

Roedd y Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS) ar gyfer Plas Menai yn +64 iach yn 2019 (mae hyn yn mesur eiriolaeth; argymell y Ganolfan i ffrindiau a chydweithwyr). Caiff yr NPS ei gyfrif drwy dynnu cyfran y difriwyr (sy'n rhoi gradd gymharol negatif) o gyfran yr hyrwyddwyr (sy'n rhoi gradd bositif).

# LANSIO GWEFAN NEWYDD CHWARAEON CYMRU

Roedd lansio gwefan ddwyieithog gorfforaethol newydd yn cwblhau cam cyntaf un prosiect i gynyddu'r cyswllt â'n cwsmeriaid ac i wella effeithlonrwydd busnesau.

Roedd y cam cyntaf yn ymwneud â chadarnhau – darparu adnodd ar-lein a fyddai'n cyflwyno ein gwasanaethau a'n cynhyrchion mewn ffordd a fyddai'n ei gwneud yn haws i ymwelwyr ddeall rôl Chwaraeon Cymru.

### BYDD Y CAMAU YN Y DYFODOL YN EDRYCH AR Y CANLYNOL NAWR:

1. Gwell amlygrwydd data i wella mynediad at ddata am gyfranogiad chwaraeon, gan gynnwys yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
2. Personoli'r profiad ar-lein, gan gynnwys ardal i fewngofnodi i adnodd dysgu ar gyfer y sector chwaraeon
3. Personoli ar gyfer cwsmeriaid gan wneud y profiad ar-lein yn siop un stop ar gyfer adnoddau Chwaraeon Cymru

Hefyd mae gwefan Atebion Clwb gennym ni'n parhau i ddarparu help a chefnogaeth i glybiau a gwirfoddolwyr yng Nghymru, ac mae adnodd newydd ar-lein – i sbarduno incwm masnachol – yn cael ei ddatblygu gan Blas Menai.





CHWARAEON CYMRU

CHWYDDWYDR AR CHWARAEON

## ATHROFA CHWARAEON CYMRU A GEMAU OLYMPAIDD TOKYO

**HAF 2021**

Gyda Gemau Olympaidd Tokyo 2021 ar y gorwel, mae Cymdeithas Olympaidd Prydain wedi cadarnhau'r tîm gwasanaethau perfformiad a fydd yn darparu cefnogaeth o ddydd i ddydd i athletwyr.

Bydd hwb perfformiad Tîm GB yn cael ei gynnal yn Athrofa Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd. Bydd wyth dadansoddwr perfformiad yn y DU, ond yn gweithio ar amser Tokyo, wedi'u lleoli yn yr Hwb ac yn cefnogi'r gweithrediadau ar y tir yn Tokyo. Mae'r rhain yn cynnwys dau aelod o Athrofa Chwaraeon Cymru, Carys Jones a Jennifer Roach.

# EIN CANOLFANNAU

## EIN CANOLFANNAU A'R AMGYLCHEDD

### CANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU

Gosod **GOLEUADAU A WEITHREDIR GAN SYMUDIAD** ac uwchraddio ffenestri ar gyfer effeithlonrwydd thermal (Gradd Weithredol Perfformiad Ynni wedi gostwng i 43, gostyngiad o 32.8% ers cyflwyno'r cynllun)

**RACIAU BEICIAU** i hybu teithio actif a defnyddio amserydd i ddiffodd offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

**CWPANAU BIOBYDRADWY**, a chyllyll a ffyrc a chynwysyddion biobydradwy yn cael eu defnyddio yng nghaffi'r ganolfan, unrhyw wastraff bwyd yn cael ei gompostio, ac olew coginio'n cael ei ailgylchu'n fioddisel

Darperir **DŴR** am ddim yn nerbynfa'r ganolfan i hybu defnyddio poteli ailddefnyddiadwy yn lle plastig defnydd sengl

**GWENER FFRWYTHAU AM DDIM** unwaith y mis a bwydlenni'r caffi'n cynnwys mwy o ddewisiadau iach a chytbwys gyda chynnyrch tymhorol

### CANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL PLAS MENAI

Hen ffitiadau golau wedi cael eu newid am unedau LED watt isel ynni effeithlon


Ffenestri gwydr dwbl wedi cael eu gosod yn yr ardal llety

Nenfydau ffug ac inswleiddiad wedi'u hychwanegu lle mae angen i wneud ystafelloedd yn fwy ynni effeithlon

Ymdrech gydwybodol wedi'i gwneud hefyd i leihau nifer y tripiau yng ngherbydau'r ganolfan

Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i leihau ôl troed carbon y ddwy ganolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bydd angen newidiadau ychwanegol yn ystod y degawd nesaf a fydd angen buddsoddiad ariannol pellach. Hefyd bydd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn edrych ar sut gall Chwaraeon Cymru gefnogi'r sector chwaraeon ehangach, gan gynnwys cyrff rheoli cenedlaethol, gyda'u hymdrechion i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang.







**CHWYDDWYDR AR CHWARAEON**

### CEGIN A LOLFA'R ATHLETWYR

**CANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU, CAERDYDD**

Mae cegin hyfforddi a lolfa athletwyr yn cael eu hadeiladu i gefnogi athletwyr perfformiad uchel. Bydd y gegin yn helpu i ddylanwadu ar ddewis o brydau bwyd ar gyfer mwy o athletwyr ac yn darparu hyfforddiant cegin i gefnogi chwaraeon perfformiad uchel. Bydd y gofod hefyd yn gwasanaethu fel ardal i baratoi, gweini a chadw bwyd gan ddefnyddio safonau hylendid bwyd da. Hefyd, mae lolfa athletwyr yn cael ei hadeiladu fel ardal orffwys a hamdden briodol rhwng sesiynau hyfforddi.

- Cynhaliwyd 153 o ddigwyddiadau yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, yn amrywio o Bencampwriaethau Ewropeaidd i Eisteddfodau Ysgol
- Cyrff Rheoli Cenedlaethol wedi cael 23,447 o oriau o ddefnydd yn cynrychioli 58% o'r defnydd cyffredinol. Defnydd cymunedol yw'r gweddill.
- Cyfanswm yr aelodaeth yn 891, i fyny 7.4% o gymharu â'r llynedd
- Roedd defnydd cyffredinol y flwyddyn yn 244,551

# EIN HADDEWID

## BYDDWN YN

### DYSGU GYDA'N GILYDD:
Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.

### CYFLAWNI GYDA'N GILYDD:
Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.

### DATHLU GYDA'N GILYDD:
Cydnabod y llwyddiannau rydyn ni'n eu rhannu drwy bartneriaid effeithiol.


## DRWY ...

### GWEITHREDU'N DDIDWYLL:
Deall a pharchu diwylliannau a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### YCHWANEGU GWERTH:
Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd er mwyn cyflawni ein canlyniadau ar y cyd.

### ANNOG ARLOESI:
Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

### BWRDD CHWARAEON CYMRU




57% BENYW A 43% GWRYW

14% O GEFNDIROEDD DLIE

7% AG ANABLEDD

**MAE POB YSTOD OEDRAN O'R 30AU I'R 70AU YN CAEL EU CYNRYCHIOLI.**





# EIN DYLETSWYDDAU


## SAFONAU DIOGELU

**POB UN O'R 26**

**POB UN O'R 25 O CHWARAEON BUDDSODDIAD UCHEL** wedi cyrraedd naill ai **LEFEL 2 NEU 3** y Safonau Diogelu (Pobl Ifanc)




**100%** o'r Chwaraeon Buddsoddiad Uchel wedi cyrraedd Lefel 2 o leiaf (Pobl Ifanc) gyda **28%** wedi cyrraedd Lefel 3





**26%** (5 allan o 19) o'r Chwaraeon Buddsoddiad Isel wedi cyrraedd y Safon Lefel 1 newydd (Pobl Ifanc) – Chwaraeon Eira Cymru yw'r Gamp Buddsoddiad Isel sydd wedi cyrraedd Lefel 2 y Safonau


Ers cyflwyno'r gwasanaeth cefnogi newydd i Oedolion Mewn Perygl ym mis Tachwedd 2018, mae'r ymgysylltu gan bartneriaid wedi bod yn rhagorol. Bydd y bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Ann Craft sy'n darparu'r gwasanaeth yn parhau am 2 flynedd arall (isafswm).

Mae'r digwyddiadau a'r hyfforddiant Ymgysylltu â Swyddog Arweiniol Diogelu yn parhau i fod ar lefel uchel ymhlith patneriaid sydd wedi'u cyllido a thu hwnt.


## SAFONAU CYDRADDOLDEB





Dim ond **1 (4%)** CRhC Buddsoddiad Uchel sydd heb gyrraedd unrhyw rai o'r safonau





**5 (16%)** CRhC Buddsoddiad Uchel wedi cyrraedd neu gynnal y safon Sylfaen




**5 (16%)** CRhC Buddsoddiad Uchel wedi cyrraedd neu gynnal y safon Ragarweiniol




**11 (34%)** CRhC Buddsoddiad Uchel wedi cyrraedd neu gynnal y safon Ganolraddol




**2 (8%)** CRhC Buddsoddiad Uchel wedi dechrau ar y broses asesu ar gyfer y safonau Uwch – dylent gyrraedd y safon Uwch yn ystod 2020/21, Golff a ChAC fydd y ddau bartner cyntaf yng Nghymru

# CHWARAEON PERFFORMIAD

**MAE'N ANODD ADLEWYRCHU AR CHWARAEON ELITAIDD YN 2019 HEB GRYBWYLL RYGBI I DDECHRAU.**

Enillodd carfan dynion Cymru y Gamp Lawn yn nhwrnamaint y Chwe Gwlad, mwynhau chwarae 14 gêm o'r bron heb eu trechu nes cyrraedd rhif un y byd, a sicrhau lle yn rownd gyn-derfynol Cwpan y Byd yn Japan.

Cafwyd digwyddiadau positif iawn yn 2019 gyda **HANNAH MILLS** yn dod yn bencampwraig hwylio'r byd am yr eildro, **JADE JONES** yn hawlio teitl taekwondo y byd, y focswraig **LAUREN PRICE** yn ergydio ei ffordd i rif 1 y byd ac **ELINOR BARKER** yn cipio aur beicio'r byd.

Mewn para-chwaraeon, mwynhaodd **HOLLIE ARNOLD** (gwaywffon) ac **ALED DAVIES** (taflu siot) lwyddiant gyda'u pedwerydd teitl Para Athletau'r Byd yn olynol yn Dubai.

Mewn chwaraeon tîm, er na chymhwysodd tîm pêl rwyd Cymru ar gyfer Cwpan y Byd, cymerodd ran yng Nghyfres Brawf yr Haf. Cynhaliwyd y gemau yn erbyn De Affrica, Malawi a Thrinidad a Thobago yn Arena Viola Caerdydd (Arena Iâ Cymru yn flaenorol), a chynhaliwyd dwy gêm yn erbyn Grenada yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Yn y cyfamser, roedd llygaid pawb ar rowndiau cymhwyso pêl droed dynion Cymru ar gyfer yr Ewros wrth iddynt geisio efelychu llwyddiant 2016.














## ATEBION CLWB




**69%** o gynnydd yn y traffig i'r safle yn ystod y 12 mis diwethaf i **17,260 O DDEFNYDDWYR UNIGOL**.


Mae'r adnodd datblygu clybiau wedi cael ei ailfrandio.

## AP VOLHOURS

Rhwng mis Ebrill 2019 a diwedd mis Ionawr 2020 mae **33** o sefydliadau chwaraeon wedi sefydlu cyfrifon VolHours.

Mae 743 o wirfoddolwyr unigol wedi sefydlu cyfrif ac wedi cofnodi **20,882 O ORIAU GWIRFODDOLI**.


## AMRYWIAETH BWRDD




Mae Prif Weithredwyr benywaidd mewn **46% O'R CYRFF RHEOLI CENEDLAETHOL (CRhC) CYLLID UWCH** erbyn hyn.

## YR URDD

**10,400 O BLANT A PHOBL IFANC** yn cymryd rhan mewn clybiau wythnosol gan yr Urdd drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae mwy na 600 o hyfforddwyr cymunedol gweithredol.




CHWARAEON CYMRU

## CHWARAEON CYMRU

# EDRYCH YMLAEN

***FEL Y COFNODWYD DRWY GYDOL YR ADRODDIAD, MAE LLAWER O GYNLLUNIAU PARHAUS YN EU LLE ER MWYN RHOI STRATEGAETH CHWARAEON CYMRU AR WAITH.***



# CYLLID
## 'PWYSAU IACH, CYMRU IACH'

**AR ÔL RHYDDHAU PWYSAU IACH, CYMRU IACH, MAE LLYWODRAETH CYMRU WEDI YMRWYMO £4.5 MILIWN YN YSTOD Y DDWY FLYNEDD NESAF AR GYFER TRI PHROSIECT CHWARAEON MEWN YMGAIS I HYBU FFYRDD O FYW IACHACH A MWY ACTIF.**

Bydd y prosiectau cyllido'n cael eu cydlynu gan Chwaraeon Cymru a dyma'r prosiectau:

**Y CYNLLUN HAMDDEN ACTIF 60** + i annog mwy o bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth hamdden leol, gyda chyfnod am ddim i ddechrau, ac wedyn darpariaeth gyda chymorth ariannol i'w helpu i ddatblygu arferion iach newydd.

Bydd plant a theuluoedd yn darged ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol yng Nghymru i dreialu prosiectau chwaraeon cydweithredol sy'n helpu i ehangu cyfleoedd i fod yn fwy actif yn amlach. **BYDD Y PROSIECTAU'N CAEL HWB CYCHWYNNOL O £200K.**

Bydd **£3MILIWN O GYLLID LLYWODRAETH CYMRU** yn parhau â'r gwaith llwyddiannus sy'n cael ei wneud fel rhan o gronfa Lle i Chwaraeon sydd eisoes wedi gweld **£5 MILIWN** yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys 118 o glybiau a sefydliadau yng Nghymru y llynedd. Mae'r arian hwn wedi rhoi cychwyn i brosiectau cyffrous eisoes, fel 'Overhang' yn Sir Gaerfyrddin lle mae gwaith wedi dechrau ar droi hen eglwys yn ganolfan ddringo dan do, yn yr un flwyddyn ag y mae dringo'n ymddangos yn y Gemau Olympaidd am y tro cyntaf.



CHWARAEON CYMRU

# CHWARAEON ELITAIDD

**ASTUDIAETH WEDI'I CHOMISIYNU O'R AMGYLCHEDD GORAU I ATHLETWYR.**

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar ei werthoedd ac yn sicrhau bod dull cyfannol o ddatblygu athletwyr yn cael ei annog.

Mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i EdComs i gynnal ymchwil traws-chwaraeon, a'r diben yw sicrhau'r canlynol:

- **DEALLTWRIAETH WELL O NODWEDDION PROFIAD DATBLYGU POSITIF I ATHLETWYR**
- **ADNABOD Y RHWYSTRAU A'R HERIAU Y MAE ATHLETWYR A'U RHIENI YN EU HWYNEBU**
- **TYNNU SYLW AT DDULLIAU O GEFNOGI CHWARAEON I GREU AMGYLCHEDDAU DATBLYGU POSITIF**


Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n gobeithio ei chasglu o'r prosiect hwn yn nodi nodweddion amgylchedd datblygu positif yng Nghymru y gellir ei ddefnyddio gan chwaraeon a Chwaraeon Cymru i wneud y canlynol:

- **ADLEWYRCHU AR YR ARFERION PRESENNOL A GWEITHREDU YN UNOL Â HYNNY.**
- **ADNABOD UNRHYW STRATEGAETHAU Y GELLIR EU DATBLYGU I GEFNOGI CHWARAEON I GREU AMGYLCHEDDAU POSITIF.**
- **ADNABOD CYFLEOEDD I GYDWEITHREDU.**



# DADANSODDI PERFFORMIAD

Cafodd adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif Arolwg Cenedlaethol blynyddol Cymru ei rhyddhau ar gyfer 2018/19. Mae rhai o'r canfyddiadau'n helpu i fesur y cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.




Canfu'r arolwg bod nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy wedi aros yr un fath, heb newid, yn **32% AR GYFER 2018/19.**

**MAE OEDOLION YNG NGHYMRU'N FWY TEBYGOL O FOD YN CYMRYD RHAN MEWN GWEITHGAREDDAU FEL:**

**CERDDED**
(2 filltir neu fwy; 869,000 o bobl),

**CAMPFA NEU DDOSBARTHIADAU FFITRWYDD**
(405,000 o bobl)

**NOFIO DAN DO**
(279,000 o bobl)

**DANGOSODD Y CANFYDDIADAU HEFYD Y BYDDAI 50% O'R HOLL OEDOLION YN HOFFI GWNEUD MWY O CHWARAEON NEU WEITHGARWCH CORFFOROL.**

Bydd y paratoadau'n dechrau'n fuan ar gyfer rownd nesaf yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Mae'r arolwg yn gyfle i blant ledled Cymru leisio eu barn am chwaraeon a'u lles, a hefyd mae'n rhoi gwybodaeth gyfoethog i'r sector am lefelau cymryd rhan, ymddygiad ac agweddau.

Yn ychwanegol at yr adolygiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam, dangosodd datganiad pellach effaith economaidd chwaraeon. Canfu bod y diwydiant chwaraeon wedi tyfu £1,142m (cynnydd o 10% ers 2010), bod yr economi chwaraeon wedi cyfrannu £1,182m mewn Gwariant Defnyddwyr a hefyd ei bod wedi cynhyrchu 29,700 o swyddi cysylltiedig â chwaraeon (yn 2016/17). Yn ogystal, gwelwyd fod y sector chwaraeon yn perfformio'n well na'r diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru.





**RYDYN NI WEDI GWERTHUSO A CHEFNOGI NIFER O'N PROSIECTAU NEU EIN MEYSYDD GWAITH, GAN GYNNWYS Y CANLYNOL:**

Arolwg Athrofa Chwaraeon Cymru – derbyniwyd 57 o ymatebion gan athletwyr, hyfforddwyr a Chyfarwyddwyr Perfformiad ac ar draws y chwaraeon amrywiol rydyn ni'n eu cefnogi yn uniongyrchol. Bydd yr adborth yn helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig wrth symud ymlaen.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'n grantiau presennol gan Resources 4 Change, gyda'r bwriad o lansio cynllun grantiau newydd ddiwedd 2020.

Mae adnoddau sylweddol yn cael eu hymrwymo i werthuso effaith y Fenter Nofio Am Ddim yn ystod 2020/21.

Mae Fframwaith Canlyniadau wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi. Bydd yn cael ei lenwi'n chwarterol i dracio ein cynnydd mewn amser real.

Gwerthuso rhaglenni'r Gronfa Iach ac Egnïol, gan gynnwys ar lefel y prosiectau unigol.

**Mae Chwaraeon Cymru yn cynhyrchu Ystadegau Swyddogol ac, o'r herwydd, rydyn ni'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, i'r llywodraeth ac i sefydliadau eraill bod y data rydyn ni'n eu cynhyrchu o werth, o ansawdd uchel ac y gellir dibynnu arnynt.**



# CYLLID Y LOTERI AC YCHWANEGOLRWYDD

**Mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd ar eu polisïau a'u harferion.**

Mae cyllid y Loteri'n wahanol i gyllid y Llywodraeth ac ni ddylai gymryd lle gwariant y Trysorlys. Os yw hynny'n briodol, gall ategu cyllid, rhaglenni a pholisïau'r Llywodraeth a chyllid, rhaglenni a pholisïau eraill.

Wrth i ni asesu ceisiadau am arian, rydym yn sicrhau bod ychwanegolrwydd yn cael ei ystyried. Rydym yn gweithio'n agos â sefydliadau blaengar er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni cyllido'n ychwanegu gwerth at gyllid y Llywodraeth a chyllid arall, ond heb gymryd ei le.

### ADOLYGU GWEITHGAREDDAU DOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL

Yn ystod 2019/20 dosbarthodd Chwaraeon Cymru ddyfarniadau o dan nifer o raglenni grant a gyllidir gan y Loteri.

### GRANTIAU CYFALAF

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau. Cyflwynodd Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws gwreiddiol fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig sy'n berthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn, sef ail gam y broses.

Bodlonwyd cyfanswm o £2,805,000 (2018/19 £3,655,000) o gynigion grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Bu gostyngiad o £850,000 yn y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau cyfalaf yn 2019/20 (gostyngiad o £1,049,000 yn 2018/19).

### GRANTIAU REFENIW

Roedd cyfanswm y cynigion grantiau refeniw a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn yn £10,399,000 (2018/19 £10,488,000). Gostyngodd y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau refeniw £89,000 yn 2019/20 (gostyngiad o £178,000 yn 2018/19).

### SYMUDIADAU YM MALANS Y LOTERI HYD AT 31 MAWRTH 2020

Mae'r tabl canlynol yn dangos y symudiadau ar bob balans sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn:

| Balans ar 1 Ebrill 2019 | Colled Heb ei Gwireddu | Incwm a Dderbyniwyd (Net) | Arian o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Balans ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| 14,665 | - | 16,062 | (15,700) | 15,027 |

Mae'r tabl yn dangos cynnydd yn y balans sy'n cael ei ddal o £0.362 miliwn, o gymharu â gostyngiad o £0.876 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.





# CANLYNIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN

Cyflwynir canlyniadau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Roedd cyfanswm yr incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i £9,812,000 (cyfanswm gwariant cynhwysfawr o £11,556,000 yn 2018/19). Trosglwyddwyd y swm yma i'r cronfeydd cadw.

Mae datganiad y sefyllfa ariannol ar gyfer 2019/20 yn dangos ffigur o £10,230,000 (2018/19 £418,000) ar gyfer cyfanswm yr asedau net. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw'r estyniad ar gynigion grant 2019/20 i 2019/20, a chafodd yr ymrwymiadau grant eu cydnabod yng nghyfrifon 2018/19.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol sy'n cymryd y bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy.

### CYNALIADWYEDD

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati i sefydlu polisïau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol yn ei lle'n llawn ar ôl cael ei chymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i weld gostyngiad yn ei allyriadau CO2 gyda gostyngiad o 2% o gymharu â 2018/19, sydd ychydig o dan ein targed o 3% o ostyngiad blynyddol.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i annog y staff i ddefnyddio cynadleddau fideo, Skype, Teams a Sharepoint mewn ymdrech i geisio lleihau teithio. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gynnig Cynllun Beicio i gyflogeion, er mwyn lleihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiroedd o 20c y filltir am bob siwrnai fusnes a wneir ar feic.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i edrych ar ffyrdd i ddatrysiadau technolegol helpu i leihau allyriadau a gwastraff. Anogir staff i weithio'n hyblyg os yw hynny'n bosib, ac mae hyn wedi arwain at staff yn gweithio o gartref yn fwy rheolaidd. I gefnogi hyn, mae gliniaduron ychwanegol wedi cael eu prynu ac mae desgiau poeth wedi cael eu cyflwyno mewn rhai swyddfeydd. Er nad yw hyn yn cael effaith ar nifer y milltiroedd a hawlir gan staff (ni all staff hawlio costau milltiroedd am gymudo i'r gwaith), mae'n cyfrannu at lai o dagfeydd traffig ac allyriadau.

Ym mis Mawrth 2020, prynodd Chwaraeon Cymru ail gar cronfa hybrid, a fydd yn sicrhau gostyngiad pellach mewn allyriadau carbon yn y dyfodol.

Mae Cyfradd Weithredol Perfformiad Ynni (DEC) Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi gostwng am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae'n parhau ymhell o dan y radd nodweddiadol ar gyfer y math o adeilad ac mae'r ganolfan yn parhau i weithredu yn unol â chanllawiau Hierarchaeth Gwastraff ac mae'n gweithredu System Rheolaeth Amgylcheddol.

Er bod y gwastraff yn gyffredinol wedi lleihau, roedd cynnydd mewn casglu gwastraff i dirlenwi o gymharu â 2018/19. Y rheswm am hyn oedd am ein bod wedi cael gwared ar lawer iawn o ddodrefn swyddfa wrth addasu'r swyddfeydd i'w gwneud yn weithleoedd mwy effeithiol a modern. Fe wnaeth hyn, yngyd â dim casglu gwastraff gwyrdd yn ystod y flwyddyn, leihau'r cyfraddau ailgylchu ar gyfer y flwyddyn.

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno cwpanau, cynwysyddion a chyllyll a ffyrc tecawe biobydradwy a chompostadwy ac wedi cael gwared ar becynnau sengl o siwgr a sawsiau. Hefyd mae wedi cyflwyno ailgylchu pecynnau creision.

Bu gostyngiad yn y defnydd o ddŵr yn 2019/20, yn rhannol oherwydd gallu defnyddio'r twll turio dŵr cyn iddo sychu.

Mae Plas Menai wedi parhau i weithredu ei Bolisi Amgylcheddol ac mae'r adnewyddu parhaus ar yr adeilad wedi bod yn gyfle i ni uwchraddio i systemau mwy ynni effeithlon a adlewyrchir yn y gwelliannau a ddangosir yn y tablau. Ar ôl y gwelliannau a'r buddsoddiadau yn yr adeilad yn ystod y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweld gostyngiad pellach yn y sgôr/radd DEC, sydd nawr yn D gyda sgôr o 89, i lawr o 123 yn y flwyddyn flaenorol.

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu'r pwll nofio ym mis Mawrth 2019, ac mae'r hen oleuadau aneffeithlon wedi cael eu newid am oleuadau LED ynni effeithlon watt isel ac mae synwyryddion symudiad wedi cael eu gosod yn eu lle i reoli goleuadau'r ystafelloedd newid a'r ardal wylio. Mae'r defnydd o Olew Nwy wedi dychwelyd i lefelau normal yn dilyn haf eithriadol gynnes gyda'r defnydd wedi gostwng yn 2018/19. Yn 2019, ymunodd y Ganolfan â Rhwydwaith Refill Cymru, sy'n annog pobl i lenwi eu poteli dŵr am ddim er mwyn helpu i leihau'r defnydd o blastig defnydd sengl.

Mae Cyfres Solar 350MW wedi cael ei gosod yn ei lle yn y Ganolfan. Bydd hyn yn ein helpu i wneud arbedion pellach o ran defnyddio llai o ynni, ac yn lleihau ein biliau trydan.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i chwilio am gyllid ar gyfer uwchraddio ein System Wresogi, ac mae Gwerthusiad opsiynau wedi cael ei gynnal yn 2019/20. Hefyd bydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal i osod pwynt gwefru ceir trydan yn ei le yn y ganolfan.

**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**





# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

### *Y BWRDD*

Yn ystod 2019/20, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol;

| | |
|---|---|
| **Mr Lawrence Conway**** | (Cadeirydd Penodwyd 01.09.2018) |
| **Ms Pippa Britton**** | (Is Gadeirydd Penodwyd 01.10.2017) |
| **Ms Johanna Sheppard*** | (Wedi Ymddeol 30.04.2019) |
| **Mr Richard Parks** | (Wedi Ymddiswyddo 07.07.2019) |
| **Mr Ashok Ahir*** | (Penodwyd 01.10.2017) |
| **Mr Ian Bancroft** | (Penodwyd 01.10.2017) |
| **Ms Alison Thorne*** | (Penodwyd 01.10.2017) |
| **Ms Judi Rhys*** | (Penodwyd 01.09.2018) |
| **Yr Athro Leigh Robinson** | (Penodwyd 01.09.2018) |
| **Mr Phil Tilley** | (Penodwyd 01.09.2018) |
| **Mr Martin Veale*/**** | (Penodwyd 01.09.2018) |
| **Ms Rajma Begum** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| **Mr Dafydd Trystan Davies** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| **Ms Delyth Evans** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| **Ms Nicola Mead-Batten*** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| **Ms Hannah Murphy** | (Penodwyd 01.09.2019) |
| | |
| **Prif Weithredwr** | Ms S Powell |
| **Prif Weithredwr Dros Dro***** | Mr B Davies (Yn weithredol rhwng 01.12.2019 a 28.06.2020) |

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
** Aelod o'r Pwyllgor Tâl
***Prif Weithredwr Dros Dro yn ystod absenoldeb mabwysiadu'r Prif Weithredwr

### *DATGAN BUDDIANNAU*

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2019/20. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24, yn cael ei datgelu yn Nodyn 17 y cyfrifon hyn.

### *DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL*

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

### *CANFOD A RHEOLI RISG*

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 67.

### *POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD*

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Deddf Llog 1998) ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, talodd Chwaraeon Cymru 99% (2018/19 99%) o'i holl anfonebau gan gadw at

delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.

### OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.10 a nodyn 16 y datganiadau ariannol.

### TÂL ARCHWILWYR

Yn ystod 2019/20, gwnaed gwaith cysylltiedig â gwrth-dwyll fel rhan o astudiaeth genedlaethol, ond ni chodwyd ffi am hynny gan ein harchwilydd allanol, sef y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 8 yn y datganiadau ariannol.

### DATGANIAD AR DDATGELU GWYBODAETH ARCHWILIO BERTHNASOL

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac

2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

O dan Adran 35 (2) - (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, ac o'i incwm a'i wariant a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo a'r Cyngor gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, fel y nodir yn Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gronfa'n parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Rwyf yn cadarnhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'm bod yn ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r farn dros benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**





## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2019/2020

### CYFLWYNIAD

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

### LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Y BWRDD

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd.

Yn ystod y flwyddyn, penododd Llywodraeth Cymru bum aelod Bwrdd newydd, sef Rajma Begum, Dafydd Trystan Davies, Hannah Murphy, Delyth Evans a Nicola Mead-Batten. Gadawodd dau o'r aelodau y Bwrdd, sef Johanna Sheppard (ei thymor wedi dod i ben) a Richard Parks (wedi ymddiswyddo oherwydd newid mewn amgylchiadau). Diolchaf iddynt am eu gwasanaeth ymroddedig i Chwaraeon Cymru yn ystod eu tymhorau gwasanaethu a chroesawaf yr aelodau newydd yn gynnes.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys 57% o ferched, 14% DLIE ac mae 7% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabledd.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y tabl isod.

| Aelod Bwrdd | Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5) | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) |
|---|---|---|
| Lawrence Conway (Cadeirydd)) | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Pippa Britton (Is Gadeirydd) | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Richard Parks[1] | 1 / 1 | Amherthnasol |
| Ashok Ahir | 4 / 5 | 2 / 4 |
| Ian Bancroft | 4 / 5 | Amherthnasol |
| Alison Thorne | 4 / 5 | 4 / 4 |
| Judi Rhys | 4 / 5 | 1 / 2 |
| Leigh Robinson | 4 / 5 | Amherthnasol |
| Martin Veale | 5 / 5 | 4 / 4 |
| Phil Tilley | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Rajma Begum[2] | 3 / 3 | Amherthnasol |
| Dafydd Trystan Davies[2] | 3 / 3 | Amherthnasol |
| Delyth Evans[2] | 3 / 3 | Amherthnasol |
| Nicola Mead-Batten[2] | 3 / 3 | 2 / 2 |
| Hannah Murphy[2] | 3 / 3 | Amherthnasol |
| **(Aelodau Annibynnol – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn unig)** | | |
| Gareth Jones | Amherthnasol | 2 / 4 |
| Robert Williams | Amherthnasol | 3 / 4 |
| **Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb** | **92%** | **75%** |

[1]Ymddiswyddodd 07.07.2019
[2]Penodwyd 01.09.2019

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae dau bwyllgor parhaol arall wedi'u sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl.

### POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2019/20, nid oedd Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff.



CHWARAEON CYMRU

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol);
- Mae'r risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a manylir ar gamau gweithredu i liniaru ar y gofrestr risg.

Ffarweliodd y Pwyllgor hefyd â Judi Rhys a dymuna'r Bwrdd fynegi ei werthfawrogiad am gyfraniadau Judi. Penodwyd Nicola Mead-Batten yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2019/20, parhaodd Chwaraeon Cymru i ddefnyddio'r 'Fframwaith Sicrwydd' i ategu'r broses rheoli risg. Pwrpas y Fframwaith yw cofnodi lefel y sicrwydd, yn fewnol ac yn allanol, yn y prosesau busnes er mwyn darparu i'r Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd y sicrwydd gofynnol. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau'n 75%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli a sicrwydd risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- cydymffurfiaeth reoleiddio;
- adolygu cyllid grant;
- adolygu systemau ariannol craidd;
- adolygu costau aelodau'r Bwrdd;
- adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- cytuno ar gynllun archwilio mewnol y flwyddyn;
- monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol ac adolygu'r cynllun archwilio allanol.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2019/20, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth, gwendidau rheoli arwyddocaol na thwyll wedi'u canfod ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

### Y PWYLLGOR TÂL

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 74.

### YR UWCH DÎM RHEOLI GWEITHREDOL

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Cynhelir cyfarfodydd misol ffurfiol sy'n dilyn agenda a chedwir cofnodion i sicrhau ein bod yn cofnodi penderfyniadau ar lefel gorfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

O ganlyniad i argyfwng pandemig Covid-19, roedd rhaid i'r Weithrediaeth wneud penderfyniadau y byddai disgwyl iddynt gael eu cyflwyno ger bron y Bwrdd efallai o dan amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosib oddi mewn i'r cyfyngiadau amser a orfodwyd gan yr argyfwng a'r dyddiadau yr oedd rhaid i'r Weithrediaeth a Llywodraeth Cymru gadw atynt, ac o dan yr amgylchiadau hynny, gwnaeth y Prif Weithredwr benderfyniadau ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd.

Er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth symud ymlaen, cytunodd cyfarfod mis Ebrill o'r Bwrdd i ffurfio 2 is-grŵp newydd o'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Is-grŵp i ystyried y materion hynny yr oedd y Prif Weithredwr angen cytundeb brys iddynt, ac na allai aros nes cynnal cyfarfod llawn o'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth. Cynigiodd y Cadeirydd bod y grŵp hwn yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a hyd at ddau aelod Bwrdd arall (a ddewisir ar sail ad hoc yn bennaf fel ymateb i'w hargaeledd).
- Is-grŵp yn gyfrifol am ystyried strategaeth adfer tymor hir ar gyfer y sefydliad a'r sector chwaraeon yn gyffredinol. Byddai'r grŵp hwn hefyd yn monitro perthnasedd ac addasrwydd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a strategaeth newydd Chwaraeon Cymru.

### EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD A'R PWYLLGOR

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd datblygu llywodraethu da'n parhau. Mae strwythurau'r cyfarfodydd Bwrdd wedi cael eu diwygio i gynnwys sesiwn yn canolbwyntio ar faes strategol fel rhan o'r busnes ac mae traciwr penderfyniadau wedi cael ei gyflwyno fel bod yr aelodau'n gallu edrych yn ôl yn rhwydd ar benderfyniadau blaenorol.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd nifer o newidiadau ymarferol. Cafodd cyfathrebu y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ei ddatgan fel cyfle allweddol i helpu'r Bwrdd i gael gwybodaeth gyson a chadw mewn cysylltiad â'r sefydliad.

Sefydlwyd grŵp rhwydweithio cyfryngau cymdeithasol i gynorthwyo gydag ymgysylltu anffurfiol a hefyd mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau ffurfiol gan y tîm Cyfathrebu a Digidol bob pythefnos.

Ar ddiwedd pob cyfarfod Bwrdd, mae'r Aelodau'n adlewyrchu ar fusnes ac yn trafod ffyrdd i'r Bwrdd fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn y byddai'n enwebu aelodau Bwrdd unigol i weithio'n agos ag aelodau'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, er enghraifft, y Prosiect Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol newydd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint yr wybodaeth a dderbynnir er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.





# RHEOLI RISG

### PWRPAS Y SYSTEM O REOLAETH FEWNOL

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

### Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Ceir Strategaeth Risg a Pholisi Rheoli sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr neu gyfarwyddwr corfforaethol priodol a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

### Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn cael eu harchwilio'n fewnol yn flynyddol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny. Mae'r Fframwaith Sicrwydd newydd yn cael ei adolygu mewn ffordd debyg gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg.

### MONITRO GRANTIAU

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

## RISGIAU ALLWEDDOL

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y risgiau a'r camau gweithredu i reoli risgiau yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru ac maent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gofforaethol. Er bod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y Gofrestr Risg Gofforaethol, nid yw wedi effeithio ar allu Chwaraeon Cymru i weithredu ar sail busnes gweithredol gyda chyllid wedi'i ymrwymo ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae risg sylweddol y bydd effaith ariannol a darparu pandemig Covid-19 ar bartneriaid a'r sector chwaraeon ehangach yn atal cynnydd Strategaeth Chwaraeon Cymru a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Fel ymateb i'r risg hon, drwy gyfuniad o gyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu Cronfa Cadernid Chwaraeon gwerth £8.5m i helpu i warchod y sector chwaraeon yng Nghymru rhag canlyniadau'r cyfyngiadau sydd wedi'u rhoi yn eu lle. Mae £550k pellach wedi cael ei neilltuo ar gyfer y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng sydd wedi'i thargedu at glybiau sy'n wynebu heriau sylweddol ac angen cefnogaeth ariannol ar unwaith.

Er bod Chwaraeon Cymru yn eithriadol ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gyllideb gynyddol ar gyfer 2020/21, mae'r gost ariannol gynyddol o fodloni taliadau diffyg pensiwn, ynghyd â cholli incwm o gau ein dwy Ganolfan Genedlaethol yn ystod y cyfyngiadau symud, yn parhau i fod yn her enfawr wrth geisio cyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Hefyd mae cyfyngiadau symud Covid-19 wedi arwain at darfu sylweddol ar weithrediadau a'n systemau TGCh arferol. Mae gan Chwaraeon Cymru systemau a dulliau rheoli cadarn yn eu lle fel bod staff yn gallu gweithio o bell, ond byddai tarfu sylweddol ar fusnes pe bai'r systemau hyn yn methu.

Mae'r risgiau eraill ar y gofrestr risg Gorfforaethol yn cynnwys methu cydymffurfio â phob deddfwriaeth, colli gwybodaeth sensitif o bosib, neu gysylltiad â gwybodaeth o'r fath, a methu gwneud y defnydd gorau posib o dechnoleg a data.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol, am y bumed flwyddyn yn olynol, wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr adroddiadau archwilio mewnol yn datgan cyfleoedd i wella'r systemau rheoli.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw fater risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 20 o argymhellion a 4 pwynt gweithredu. O blith yr argymhellion a wnaed, roedd 13 (65%) yn cael blaenoriaeth 'ganolig' a 7 (35%) yn cael blaenoriaeth 'isel'. O ran gweithredu dilynol, roedd 5 allan o'r 7 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu gweithredu adeg yr archwiliad, ac roedd y 2 oedd yn weddill wedi cael eu gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn.



CHWARAEON CYMRU

## RHEOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2019/20 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru. Cwblhawyd y rhaglen archwilio fewnol ar gyfer 2019/20 cyn effaith pandemig Covid-19 ac er bod newidiadau wedi bod i ffyrdd o weithio o ganlyniad i gyfyngiadau symud, nid yw'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar y system o reolaeth fewnol.

## DATBLYGIADAU PARHAUS

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gref, ceir bob amser feysydd sydd angen neu a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau.

Yn dilyn lansiad Strategaeth Chwaraeon Cymru, mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn datblygu model adnoddau newydd a fydd yn newid y ffordd rydym yn cyllido ein partneriaid. Bydd hwn yn cael ei weithredu drwy ddull fesul cam o weithredu a bydd y cyllid yn cael ei sbarduno gan gymysgedd o wybodaeth am chwaraeon ac asesu gallu ein partneriaid ar draws sawl maes ffocws allweddol. Bydd gweithredu'r model hwn yn cryfhau ymhellach y mesurau rheoli sydd yn eu lle i reoli'r risg sy'n gynhenid wrth fuddsoddi arian cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti, gan hefyd gynyddu eu hatebolrwydd.

Drwy gydol 2019/20, gwnaed llawer o waith i gryfhau ein mesurau rheoli seibr-ddiogelwch drwy ymestyn yr adnoddau canfod bygythiadau, hyfforddiant helaeth i staff a chyflwyno ffonau symudol gan Chwaraeon Cymru i gyflogeion sy'n gweithio gyda data sensitif. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym a byddwn yn parhau i edrych ar welliannau pellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**

# ADRODDIAD TÂL A STAFF

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cadw a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r holl bolisïau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd rydym yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabledd'.

Ar ôl gweithredu'r strwythur tâl a graddfa newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2019 ymlaen, mae gan y cyflogeion ddewis i naill ai aros gyda'r telerau cyfredol neu optio i mewn i'r strwythur newydd a chael mynediad at fanteision hyblyg uwch. Mae effaith hyn, ynghyd â nifer o gyflogeion yn gadael drwy adael gwirfoddol neu ddiswyddo gwirfoddol, wedi arwain at gynnydd uwch nag arfer mewn cyflogau a thaliadau.

Yn ystod 2019/20, cofrestrodd Chwaraeon Cymru gyda'r Siarter Teithio Iach ac rydym wedi dod yn gyflogwr Cyflog Byw, gyda chyflog dechreuol o £10 yr awr o leiaf. Cymerodd Chwaraeon Cymru ran yn Her Gorfforaethol Hanner Caerdydd 2019 eto a gorffennodd y tîm yn 4ydd, safle parchus iawn, allan o'r 47 o dimau corfforaethol (2018, 8fed allan o 39 o dimau corfforaethol).

Mae Grŵp Ymgysylltu â Staff wedi cael ei sefydlu i ddod â lleisiau ar draws y sefydliad at ei gilydd i helpu i addysgu, cyfrannu gwybodaeth a gweithredu mentrau cysylltiedig â'r diwylliant a'r dull o weithredu yn Chwaraeon Cymru.

### BUDDSODDI YN EIN POBL

Cafodd yr ailasesiad ar gyfer ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl ei gynnal yn ystod Gwanwyn 2019 a llwyddodd Chwaraeon Cymru i ddal gafael ar ei achrediad o dan y fframwaith newydd. Nododd yr asesiad bod arferion da yn eu lle eisoes a gwnaeth argymhellion ar gyfer adeiladu ar y rhain wrth i ni roi ein strategaeth newydd ar waith.

### DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2019/20 (2018/2019) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 811.11<br>(868.30) | 160.70<br>(154.52) | 5.05<br>(5.62) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2019/20 yw 2.25%. Mae hwn yn welliant ar gyfradd 2018/19 o 2.61%, a oedd yn is na chyfradd 2017/18 o 2.81% ac sy'n gymharol â'r cyfraddau diwethaf a gyhoeddwyd gan yr ONS (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 2.7%.

O blith y 2.25%, cafodd 1.29% eu dosbarthu fel tymor hir a 0.9% fel tymor byr. Fel rhan o ffocws parhaus ar reoli absenoldeb ac iechyd cyflogeion yn effeithiol, bydd polisi absenoldeb salwch Chwaraeon Cymru yn parhau i gael ei adolygu yn ystod 2020/21, gyda chefnogaeth gan yr Undeb Llafur cydnabyddedig (PCS).

Eleni rydym wedi adolygu ein contract iechyd galwedigaethol i sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer Chwaraeon Cymru a'i gyflogeion. Rydym wedi sefydlu grŵp ymgysylltu â staff y mae ei gylch gwaith yn cynnwys llesiant. Mae'r grŵp wedi sefydlu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a bydd yn gweithio gyda staff yn eu timau er mwyn darparu llais a dylanwadu ar gyfeiriad.





### CYNLLUN PENSIWN

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.5 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

### POLISI TÂL

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogai dirprwyedig Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl.

### CONTRACTAU GWASANAETH

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tridiau y mis.

### CYFNOD RHYBUDD

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

### AMSER CYFLEUSTER YR UNDEB LLAFUR

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

## CYFLOG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

### TÂL

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £97,000 (2018/19 £97,000). Mae cynnydd o £1,943 wedi'i ôl-ddyddio yn ddyledus yn gynnar yn 2020/21 yn berthnasol i 2019/20. Yn ystod 2019/20, aeth y Prif Weithredwr ar absenoldeb mabwysiadu. Penodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro yn weithredol o 1af Rhagfyr 2019 gan dderbyn cyflog crynswth o £75,700. Yn ystod y flwyddyn y cyflog gwirioneddol a dderbyniwyd oedd £66,500. Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys am daliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

### MANTEISION MEWN NWYDDAU NEU GYNNYRCH

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## NIFER Y STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Mae'r ffigurau costau staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

| | Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd | | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | | |
| Costau cyflog crynswth | | | | |
| Cadeirydd L Conway* | 0.20 | 0.20 | 18 | 16 |
| Prif Weithredwr S Powell | 0.25 | 0.25 | 24 | 24 |
| Staff Eraill** | 50.03 | 44.68 | 2,658 | 2,279 |
| | | | 2,700 | 2,319 |
| Cyflogau a thâl | | | 1,918 | 1,711 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | | 205 | 171 |
| Costau Pensiwn eraill | | | 620 | 564 |
| Addasiadau IAS19 | | | (43) | (127) |
| | | | 2,700 | 2,319 |

## DADANSODDIR COSTAU'R STAFF YMHELLACH, FEL A GANLYN:

| | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | 1,194 | 1,003 |
| Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr | 1,506 | 1,316 |
| | 2,700 | 2,319 |

* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri.
**Yn cynnwys Brian Davies yn gyfwerth ag amser llawn am y pedwar mis fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro ac wyth mis fel Cyfarwyddwr.

## HAWLIADAU PENSIWN A CHYFLOG

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 78. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.





## TÂL (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20<br>(2018/19) | 2019/20<br>(2018/19) | 2019/20<br>(2018/19) | 2019/20<br>(2018/19) |
| Mr Lawrence Conway | Cadeirydd | 50%<br>(50%) | 35 - 40<br>(30 - 35) | -<br>- | 35 - 40<br>(30 - 35) |
| Ms Pippa Britton | Is Gadeirydd | 50%<br>(50%) | 10 - 15<br>(10 - 15) | -<br>- | 10 - 15<br>(10 - 15) |
| Ms Sarah Powell | Prif Weithredwr | 25%<br>(25%) | 95 – 100<br>(95 – 100) | 25,000<br>(25,000) | 120 – 125<br>(120 – 125) |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 25%<br>(25%) | 60 – 65<br>(55 – 60) | 40,000<br>(22,000) | 100 - 105<br>(80 - 85) |
| Mr Brian Davies[1] | Cyfarwyddwr Corfforaethol/ Prif Weithredwr Dros Dro | 25%<br>(80%) | 65 – 70<br>(60 - 65) | 37,000<br>(19,000) | 100 - 105<br>(75 - 80) |
| Mr Peter Curran[2] | Cyfarwyddwr Corfforaethol | -<br>(25%) | -<br>(50 - 55) | -<br>(16,000) | -<br>(65 - 70) |
| Mr Paul Randle[3] | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 25%<br>(25%) | 70 - 75<br>(15 - 20) | 23,000<br>(5,000) | 90 - 95<br>(20 - 25) |
| Mr Malcolm Zaple | Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | 0%<br>(0%) | 60 - 65<br>(60 - 65) | 14,000<br>(5,000) | 70 - 75<br>(65 - 70) |
| Mr Steven Morgan | Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0%<br>(0%) | 50 - 55<br>(50 – 55) | 19,000<br>(17,000) | 70 - 75<br>(65 – 70) |
| Ms Johanna Sheppard[4] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 0 – 5<br>(0 – 5) | -<br>- | 0 - 5<br>(0 - 5) |
| Ms Julia Longville[5] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(0 - 5) | -<br>- | -<br>(0 – 5) |
| Mr Peter King[5] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(0 - 5) | -<br>- | -<br>(0 - 5) |
| Ms Sama Small[6] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(0 - 5) | -<br>- | -<br>(0 - 5) |
| Mr Richard Parks[7] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 0 - 5<br>(5 - 10) | -<br>- | 0 - 5<br>(5 - 10) |
| Mr Ashok Ahir | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Mr Ian Bancroft | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Mr Christian Malcolm[8] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(5 - 10) | -<br>- | -<br>(5 - 10) |
| Ms Alison Thorne | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 - 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 - 10) |
| Ms Judi Rhys[9] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Yr Athro Leigh Robinson[9] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Mr Martin Veale[9] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Mr Phil Tilley[9] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(0 - 5) | -<br>- | 5 - 10<br>(0 - 5) |
| Ms Rajma Begum[10] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>- | 0 - 5<br>- | -<br>- | 0 - 5<br>0 |
| Mr Dafydd T Davies[10] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>- | 0 - 5<br>- | -<br>- | 0 - 5<br>- |
| Ms Hannah Murphy[10] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>- | 0 - 5<br>- | -<br>- | 0 - 5<br>- |
| Ms Delyth Evans[10] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>- | 0 - 5<br>- | -<br>- | 0 - 5<br>- |
| Ms Nicola Mead-Batten[10] | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>- | 0 - 5<br>- | -<br>- | 0 - 5<br>- |

[1]Prif Weithredwr Dros Dro o 01.12.2019
[2]Ymddiswyddodd 16eg Rhagfyr 2019
[3]Penodwyd 2il Ionawr 2019
[4]Ar Absenoldeb Mamolaeth o 1af Ionawr 2018, dychwelyd Medi 2018. Wedi dewis peidio â chymryd cyflog pan oedd ar Absenoldeb Mamolaeth.
[5]Ymddeolodd 30ain Ebrill 2019
[6]Ymddeolodd 31ain Awst 2018
[7]Ymddiswyddodd 20fed Mehefin 2018
[8]Ymddiswyddodd 7fed Gorffennaf 2019
[9]Ymddiswyddodd 31ain Rhagfyr 2018
[10]Penodwyd 1af Medi 2018
[11]Penodwyd 1af Medi 2019

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

### BUDDIANNAU PENSIWN YR UWCH REOLWYR (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer 2019/20 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni (a chyfandaliad) yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar 31 Mawrth 2020 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2020 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddynr |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ms Sarah Powell<br>Prif Weithredwr | 0.0 – 2.5<br>(-0.0 – 2.5) | 30 – 35<br>(35 – 40) | 495 | 460 | 25 |
| Mr Steven Morgan<br>Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 5 - 10<br>(0 - 5) | 114 | 94 | 16 |
| Mr Malcolm Zaple<br>Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | 0.0 – 2.5<br>(-0.0 – 2.5) | 30 - 35<br>(45 - 50) | 601 | 574 | 22 |
| Mr Brian Davies<br>Prif Weithredwr Dros Dro/ Cyfarwyddwr Corfforaethol* | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 15 - 20<br>(0 - 5) | 242 | 203 | 33 |
| Mr Graham Williams<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 25 - 30<br>(35 - 40) | 432 | 389 | 38 |
| Mr Paul Randle<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 0 - 5<br>(0 - 5) | 45 | 5 | 33 |

*Penodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 01.12 2019 tra oedd Sarah Powell ar absenoldeb mabwysiadu

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.





Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

### GWIR GYNNYDD MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### DATGELIADAU CYFLOG TEG (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

| | 2019/20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£ '000) | 95 - 100 | 95 - 100 |
| Cyfanswm Tâl Canolrifol | 30,558 | 30,180 |
| Cymhareb | 3.2 | 3.2 |

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio,
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £19,300 i £97,400 (amrywiodd tâl 2018/19 o £16,900 i £97,400).

### POLISI TRETH AR GYFER Y RHAI A BENODIR ODDI AR Y GYFLOGRES

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 6 threfniant a oedd wedi bodoli (2018/19, 6 threfniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol. Ni wnaed unrhyw wariant ar gostau ymgynghoriaeth.

### CYFANSODDIAD Y STAFF

Mae cyfansoddiad staff y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a 25% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 46% yn wrywod a 54% yn fenywod.


**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**

# ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ADRODDIAD ARCHWILIO


**Atebolrwydd Wrth Gefn o Bell (yn amodol ar archwiliad)** - Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw atebolrwydd wrth gefn o bell.

**Tueddiadau gwariant tymor hir** - gwelir y tueddiadau gwariant tymor hir yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf isod:


### GRANTIAU CYFALAF




### GRANTIAU REFENIW




### COSTAU GWEINYDDU




### COLLEDION, TALIADAU ARBENNIG AC INCWM SYLFAENOL (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Yn ystod 2019/20 ni wnaed unrhyw golledion, taliadau arbennig na rhoddion. Hefyd ni fu unrhyw ffioedd sylfaenol nac incwm ffioedd.

**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**





# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDDOL A'R SENEDD

### BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, y Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

### PWYSLAIS AR FATER – EFFEITHIAU COVID-19 AR BRISIAD ASEDAU CRONFA BENSIWN

Tynnaf sylw at Nodyn 18 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio ansicrwydd prisiad sylfaenol mewn perthynas â buddsoddiadau eiddo wedi'u pwlio yn y gronfa bensiwn o ganlyniad i bandemig Covid-19. Nid yw fy marn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

### BARN AR REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### SAIL Y FARN

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISAs) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n datgan ei bod yn ofynnol i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Foesegol Adolygedig 2016 y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### CASGLIADAU PERTHNASOL I FUSNES GWEITHREDOL

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol y mae ISAs (y DU) yn gofyn i mi adrodd arnynt i chi os:

- nad yw defnydd Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru o sail gyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylfaenol a ganfuwyd ac a all greu amheuaeth

arwyddocaol am allu Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pryd awdurdodir y datganiadau ariannol ar gyfer eu cyhoeddi.

### CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R SWYDDOG CYFRIFO AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg.

### CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILYDD AM ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (y DU), rwyf yn ymarfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- adnabod ac asesu risgiau camddatganiadau sylfaenol y datganiadau ariannol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, cynllunio a gweithredu gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylfaenol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag ar gyfer camddatganiad sylfaenol o ganlyniad i gamgymeriad, oherwydd gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgynrychiolaeth neu anwybyddu rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o'r rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau sy'n briodol i'r amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru.
- gwerthuso priodolrwydd y polisïau cyfrifo a pha mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo a'r datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a pha un ai yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn ffordd sy'n sicrhau cyflwyniad teg.
- llunio casgliad am briodolrwydd defnydd Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru o'r sail gyfrifo busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a sicrheir, a oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all daflu amheuaeth sylweddol ar allu Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd sylfaenol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Seilir fy nghasgliadau ar y dystiolaeth archwilio a sicrheir hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

Hefyd mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### GWYBODAETH ARALL

Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Mewn perthynas â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan fel arall. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

### BARN AR FATERION ERAILL

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### MATERION YR WYF YN ADRODD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy staff yn ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

### ADRODDIAD

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies Dyddiad
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

### CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI
### DATGANIAD O INCWM NET CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

| | Nodyn | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn | 3 | 3,259 | 24,190 |
| Llai ymrwymiadau a ddaeth i ben neu a ddiddymwyd | 3 | (194) | (55) |
| Costau staff | 7 | 2,700 | 2,319 |
| Dibrisiant | 9 | 40 | 41 |
| Costau gweithredu eraill | 8 | 481 | 391 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 6,286 | 26,886 |
| **Incwm Crynswth** | | | |
| Elw o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | (16,133) | (14,463) |
| Enillion buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | (77) | (74) |
| Adfer grantiau | | (20) | (538) |
| Incwm arall | 8 | (193) | (193) |
| **Cyfanswm Incwm** | | (16,423) | (15,268) |
| (Incwm)/Gwariant Net o Weithgareddau | | (10,137) | 11,618 |
| **Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Cost cyllid pensiwn | 18 | 73 | 82 |
| Colled/(Enillion) Actwaraidd ar Bensiwn | 18 | 258 | (139) |
| | | 331 | (57) |
| (Incwm)/Gwariant Net cyn llog a threthiant | | (9,806) | 11,561 |
| Llog derbyniadwy | | (7) | (6) |
| **(Incwm)/Gwariant Net cyn trethiant** | | (9,813) | 11,555 |
| Trethiant taladwy | 6 | 1 | 1 |
| **(Incwm)/Gwariant ar ôl trethiant** | | (9,812) | 11,556 |
| **Cyfanswm yr (Incwm)/Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | (9,812) | 11,556 |
| Balans ar 1 Ebrill | | (418) | (11,974) |
| Balans ar 31 Mawrth | | (10,230) | (418) |

Mae'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi cael eu cyfrif ar sail y gost hanesyddol ac wedi'u hadlewyrchu yn y datganiad uchod. Mae'r holl weithgareddau'n parhau heb brynu na gwaredu eitemau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.





### CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI
### DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL FEL AR 31 MAWRTH 2020

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 9 | 133 | 163 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | 10 | 25 | 20 |
| Buddsoddiadau - balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 15,027 | 14,665 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 13 | 450 | 198 |
| **Cyfanswm yr Asedau Cyfredol** | | 15,502 | 14,883 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 15,635 | 15,046 |
| **Atebolrwydd Cyfredol** | | | |
| Croniadau grant | 3 | (373) | (10,554) |
| Atebolrwydd cyfredol arall | 12 | (1,689) | (1,061) |
| **Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol** | | (2,062) | (11,615) |
| **Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net** | | 13,573 | 3,431 |
| **Atebolrwydd Anghyfredol** | | | |
| Croniadau grant | 3 | (66) | (24) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (3,277) | (2,989) |
| | | (3,343) | (3,013) |
| **Asedau llai Atebolrwydd** | | 10,230 | 418 |
| **Cronfeydd:** | | | |
| Cronfa Incwm a Gwariant | | 13,507 | 3,407 |
| Cronfa Pensiwn | 18 | (3,277) | (2,989) |
| | | 10,230 | 418 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd a'u llofnodi ar ei ran gan;

**Swyddog Cyfrifo: S Powell**
**16/09/2020**

### CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI
### DATGANIAD O LIF ARIAN
### AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

| | Nodyn | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cyfanswm Incwm/(Gwariant) Cynhwysfawr | | 9,812 | (11,556) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledwyr | 10 | (19) | 111 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr | 3,12 | (9,510) | 10,325 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | (362) | 876 |
| Llog a dderbyniwyd | | (7) | (6) |
| Dibrisiant offer a pheiriannau | 9 | 40 | 41 |
| Cost pensiwn | 18 | 288 | (185) |
| **Mewnlif/(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | 242 | (394) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 7 | 6 |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 9 | (10) | (10) |
| Ad-daliadau benthyciadau | 10 | 14 | 24 |
| **Trethiant** | | | |
| Treth gorfforaeth a dalwyd | | (1) | (1) |
| **Mewnlif/(All-lif) arian net ar gyfer y flwyddyn** | 13 | 252 | (375) |
| **Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | 198 | 573 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | 450 | 198 |
| | | 252 | (375) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.





### DATGANIAD O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR
### AR GYFER CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI CYNGOR CHWARAEON CYMRU
### AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

| | Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £'000 | Balans yng CChC £'000 | Cronfa Pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | 15,541 | (393) | (3,174) | 11,974 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2018/19** | | | | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 14,463 | - | - | 14,463 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,350) | 15,350 | - | - |
| Adenillion Buddsoddi | 74 | 6 | - | 80 |
| Incwm Gweithredu Arall | - | 193 | - | 193 |
| Adfer grantiau | - | 538 | - | 538 |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (63) | (26,952) | - | (27,015) |
| Cost Pensiwn | - | - | 185 | 185 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | 14,665 | (11,258) | (2,989) | 418 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2019/20** | | | | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,133 | - | - | 16,133 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,700) | 15,700 | - | - |
| Adenillion Buddsoddi | 77 | 7 | - | 84 |
| Incwm Gweithredu Arall | - | 193 | - | 193 |
| Adfer grantiau | - | 20 | - | 20 |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (148) | (6,182) | - | (6,330) |
| Cost Pensiwn | - | - | (288) | (288) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 15,027 | (1,520) | (3,277) | 10,230 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 88 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 SAIL Y CYFRIFO

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy gyfeirio at gostau cyfredol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd). Gellir cael copi o'r cyfrifon ar gais drwy ysgrifennu at Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru), Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag IFRS Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2018/19 (FreM seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae cyfrifon ar wahân wedi cael eu paratoi ar gyfer gweithgareddau a gyllidir gan gymorth grant, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrif hwn gael ei gyfuno â chyfrifon Chwaraeon Cymru.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru roi cyfrif am ymrwymiadau grant tymor hir sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y cyfnodau cyfrifo dilynol, a gyllidir gan elw'r loteri yn y dyfodol.

### 1.2 INCWM O GRONFA DDOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL

Cyllidir gweithgareddau dosbarthu swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru gan elw a neilltuir gan y Loteri Genedlaethol. Cedwir yr elw hwn mewn cronfa a weinyddir gan yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae ar gael i'w dynnu i lawr i gyfrif banc Loteri Chwaraeon Cymru pan fo angen. Cydnabyddir yr holl incwm yn unol ag IFRS 15.

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, dangosir cyfran y balans o'r fath y gellir ei briodoli i Chwaraeon Cymru yn y cyfrifon yn unol â gwerth y farchnad ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi cael ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel balans sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan Chwaraeon Cymru yng nghyswllt ymrwymiadau cyfredol ac yn y dyfodol.

Mae'r balans ar 31 Mawrth 2020 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi cael ei archwilio ac nid oes angen unrhyw addasiadau. Ni addaswyd balans agoriadol y gronfa ar gyfer 2018/19.

### 1.3 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae Chwaraeon Cymru yn cyfalafu unrhyw eiddo, peiriannau ac offer gwerth mwy na £500 a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu swyddogaeth y Loteri yn unig a chynhwysir yr offer yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng y gost hanesyddol a gwerth llyfr net cost gyfredol yr asedau hyn.

### 1.4 DIBRISIANT

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

| | |
|---|---|
| Offer - Cyfrifiaduron | 3 blynedd |
| Offer - Arall | 3 - 10 blynedd |

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 COSTAU PENSIWN

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun budd pendant sy'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Cynllun pensiwn cyfraniad pendant gyda Scottish Widows yw'r llall. Dywed IAS19 bod rhaid i ffigur sy'n cael ei gyfrif yn actwaraidd (cost gwasanaethu cyfredol a gorffennol) gael ei bennu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru.

Neilltuir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng y Loteri a Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar gyfradd hanesyddol y neilltuo ar gostau staff, gweler 1.6.1. Neilltuir taliadau diffyg y gronfa bensiwn ar sail yr un gyfran â'r dyraniad diffyg pensiwn i gyfrif y Loteri.

### 1.6 DYRANNU COSTAU

Cyfrifir dyraniadau costau'r staff a'r costau anuniongyrchol a drosglwyddir o Chwaraeon Cymru i gyfrif y Loteri ar y sail a ganlyn:

#### 1.6.1
Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn. Os yw staff yn gweithio, neu'n darparu gwasanaeth i gynlluniau loteri a thrysorlys, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n unol â'r amser a dreulir ar waith y Loteri.

#### 1.6.2
Mae costau heb fod yn gostau staff yn cael eu neilltuo naill ai ar sail yr arwynebedd llawr a ddefnyddir gan staff y Loteri neu, os nad oes data arwynebedd llawr ar gael neu os nad yw'n cael ei ystyried yn briodol, dyrennir costau'n seiliedig ar gyfanswm amser staff y Loteri, a fynegir fel canran o gyfanswm amser y staff.

#### 1.6.3
Neilltuir tâl a chostau teithio Aelodau'r Cyngor ar sail 50/50.

### 1.7 POLISI AR GYFER CRONIADAU GRANT

Mae dyfarniadau grant yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr a nes eu bod yn cael eu talu, fel croniadau grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd, y manylir arno yn Nodyn 3.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd yn eu cylch yn ffurfiol ac nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd yn cael eu cynnwys yn y gwariant ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr nac fel croniad yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Er hynny, maent yn cael eu datgelu fel atebolrwydd grant wrth gefn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon.

### 1.8 INCWM ARALL

Yn berthnasol i incwm a gynhyrchir gan UK Sport at ddefnydd asedau a chyfleusterau Chwaraeon Cymru.

### 1.9 DEFNYDD O AMCANGYFRIFON A PHENDERFYNIADAU

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol:-

Nodyn 1.6.1 Mae costau staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio yn cyflawni gweithgareddau'r Loteri, gweler nodyn 1.6.1 am ragor o fanylion. Mae Nodyn 18 yn ymwneud â chostau pensiwn a neilltuir i'r Loteri ar sail dyraniad cyfartalog hanesyddol o gostau staff.

### 1.10 OFFERYNNAU ARIANNOL

#### 1.10.1 ASEDAU ARIANNOL

Nid yw masnach dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn dwyn unrhyw log ac maent yn cael eu datgan ar sail eu gwerth nominal, sy'n cael ei leihau yn unol â lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendal tymor byr a buddsoddiadau tymor byr eraill hynod hylifol y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i swm penodol o arian parod ac sy'n amodol ar risg anarwyddocaol o newidiadau mewn gwerth.

#### 1.10.2 ATEBOLRWYDD ARIANNOL

Nid yw Taliadau Masnach ac atebolrwydd cyfredol arall yn dwyn llog ac maent yn cael eu datgan yn unol â'u gwerth nominal.

### 1.11 ADRODDIADAU SEGMENTU

Mae cofnodion rheoli Chwaraeon Cymru ar gyfer y Loteri'n darparu gwybodaeth berthnasol i ddosbarthu grantiau'r Loteri. Mae Chwaraeon Cymru o'r farn nad yw gofynion datgelu IFRS 8 Segmentau Gweithredu yn berthnasol i'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri hyn. Ystyrir fod segment gweithredu unigol ar gyfer dosbarthu cyllid y loteri.

### 1.12 SAFONAU CYFRIFO WEDI'U CYHOEDDI O'R NEWYDD HEB FOD YN WEITHREDOL ETO

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig drwy eu mabwysiadu gan yr FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.

Oherwydd pandemig y Coronafeirws, mae Trysorlys EM wedi cytuno gyda'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i ohirio gweithredu IFRS 16 Prydlesau tan 1 Ebrill 2021 ar gyfer adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus.

## 2. GRANTIAU A DALWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN

| Grantiau Refeniw | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Elite Cymru | 3,140 | 3,222 |
| Coach Cymru | 2,772 | 2,741 |
| Perfformiad Cenedlaethol | 985 | 983 |
| Hyfforddiant Cenedlaethol | 931 | 937 |
| Chwaraeon Anabledd | 552 | 552 |
| Y Gist Gymunedol | 1,689 | 1,680 |
| Twf y Loteri | 312 | 292 |
| Arweinyddiaeth | 18 | 81 |
| Nodyn 3 | 10,399 | 10,488 |

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnwys swm o £62,165 (2018/19 £60,416) a dalwyd yng nghyswllt costau gweinyddu'r awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

| Grantiau Cyfalaf | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfalaf | 29 | 264 |
| Grantiau Datblygu | 2,685 | 3,051 |
| Galw Am Weithredu | 91 | 340 |
| Nodyn 3 | 2,805 | 3,655 |

Mae'r ffigurau grant yn y nodiadau uchod yn cynnwys £309,309 o wariant uniongyrchol a wnaed ar ran y rhai a dderbyniodd grantiau (£463,472 yn 2018/19)





## 3. CRONIADAU GRANT

| | Cyfalaf | Refeniw | 2019/2020 Cyfanswm | 2018/2019 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 2,140 | 8,438 | 10,578 | 586 |
| Cynigion grant a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn | (2,805) | (10,399) | (13,204) | (14,143) |
| Cynigion grant heb eu derbyn | (27) | (167) | (194) | (55) |
| Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn | 1,019 | 2,240 | 3,259 | 24,190 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | (1,813) | (8,326) | (10,139) | 9,992 |
| Balans croniadau ar 31 Mawrth | 327 | 112 | 439 | 10,578 |
| Dadansoddwyd fel: | | | | |
| Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 261 | 112 | 373 | 10,554 |
| Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn | 66 | - | 66 | 24 |

| *Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llif arian* | 2019/2020 | 2018/2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2019/20 | - | 10,554 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2020/21 | 373 | 24 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021/22 | 66 | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | 439 | 10,578 |

| | 2019/2020 | 2018/2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | - | 78 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 52 | 1,080 |
| | 52 | 1,158 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 387 | 9,420 |
| | 439 | 10,578 |

### CRONIADAU GRANT (PARHAD)

Bydd Chwaraeon Cymru yn trin dyfarniadau Grant fel gwariant ac os nad ydynt wedi'u talu, fel croniad, os oes rhwymedigaeth adeiladol i wneud taliad. Daw dyfarniadau grant sy'n rhydd o unrhyw amodau arbennig ar grant yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r cynnig ffurfiol o grant wedi cael ei anfon at dderbynnydd y grant.

Daw cynigion grant sydd ag amodau arbennig yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r amodau arbennig yn y contract. Ni fydd dyfarniadau y penderfynwyd yn eu cylch ond sydd ag amodau grant heb eu cyflawni'n arwain at rwymedigaeth adeiladol ac ni fydd yn arwain at groniad grant; yn hytrach, bydd dyfarniadau o'r fath yn cael eu datgelu drwy gyfrwng nodyn fel atebolrwydd grant wrth gefn (gweler nodyn 4).

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu trin fel cynnig ffurfiol ar ôl i'r derbynnydd gael hysbysiad

ysgrifenedig ffurfiol ar ffurf "llythyr cynnig". Ni fydd cyfathrebu ar lafar neu'n anffurfiol gan staff, nad yw'n rhwymo Chwaraeon Cymru mewn unrhyw ffordd, yn cael ei drin fel cynnig ffurfiol o grant.

Ni fydd Chwaraeon Cymru yn trin unrhyw rai o'r amodau canlynol fel rhai o dan eu rheolaeth:

- Y gofyniad i sicrhau caniatâd cynllunio neu unrhyw gymeradwyaeth reoleiddio arall;
- Y gofyniad i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill;
- Amod cyffredinol perthnasol i argaeledd arian y loteri.

Fel rhan o strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, mae model buddsoddi newydd yn cael ei ddatblygu yn barod ar gyfer penderfyniadau cyllido o 2020/21 ymlaen. Felly, mae 2019/20 yn flwyddyn bontio ar gyfer penderfyniadau cyllido, felly mae Chwaraeon Cymru wedi dewis ymestyn cynigion cyllido 2018/19 am 12 mis, i roi amser i weithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn bontio. Seiliwyd y cynnig ymestyn ar symiau llythyr cynnig 2018/19, gyda'r llythyrau cynnig ar eu newydd wedd yn cael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Oherwydd hyn, cynhwyswyd cynigion 2019/20 fel cynigion a wnaed yng nghyfrifon 2018/19.

Fodd bynnag, mae'r model buddsoddi'n dal i gael ei ddatblygu ac mae trafodaethau parhaus gyda phartneriaid dethol yn parhau. Bydd y model cyllido newydd yn dod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Felly, bydd llythyrau cynnig 12 mis newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 yn cael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2020 ymlaen.

### 4. ATEBOLRWYDD GRANT WRTH GEFN

| | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Grant | 471 | 1,365 |
| | 471 | 1,365 |

### 5. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd gan Gyfrif y Loteri unrhyw ymrwymiadau cytundebol ar gyfer Cyfalaf ac Eiddo, Peiriannau ac Offer (2018/2019 Dim).

### 6. TRETHIANT TALADWY

| | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Treth daladwy ar log a dderbyniwyd ar gyfradd o 19% (2018/2019 - 19%) | 1 | 1 |



### NIFER Y STAFF A'R COSTAU CYSYLLTIEDIG

Mae ffigurau costau'r staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

| | Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd | | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | | |
| Costau cyflog crynswth | | | | |
| Cadeirydd L Conway* | 0.20 | 0.20 | 18 | 16 |
| Prif Weithredwr S Powell | 0.25 | 0.25 | 24 | 24 |
| Staff Eraill** | 50.03 | 44.68 | 2,658 | 2,279 |
| | | | 2,700 | 2,319 |
| Cyflogau a thâl | | | 1,918 | 1,711 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | | 205 | 171 |
| Costau Pensiwn eraill | | | 620 | 564 |
| Addasiadau IAS19 | | | (43) | (127) |
| | | | 2,700 | 2,319 |

Mae'r costau Pensiwn eraill sy'n gyfanswm o £620,000 yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £235,250 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2018/19 £219,360). Y gweddill yw cost pensiwn y cyflogwr a neilltuir i'r loteri'n seiliedig ar ddyrannu amser cyflogeion unigol i waith y loteri.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol a gorffennol) gael ei nodi yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2019/20, roedd cyfraniad gwirioneddol y cyflogwr yn (£500,000) (24% o £2,000,000). Roedd y gost gwasanaeth bresennol a gorffennol a ddyrannwyd gan y Loteri ar gyfer 2019/20 yn gyfanswm o £457,500 (25% o £1,830,000), sy'n gorfod cymryd lle'r costau pensiwn gwirioneddol ar gyfer y cyflogwr yn y SoCNE. Felly, yr effaith net oedd (£42,500) i gostau staff ar ôl tynnu cyfraniad y cyflogwr. Gan fod cost y gwasanaeth ar hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Loteri. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 18.

Mae costau diswyddo'r flwyddyn wedi cael eu talu'n llawn a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru. Nid oes unrhyw gostau diswyddo wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Dadansoddir costau'r staff ymhellach, fel a ganlyn:

| | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | 1,194 | 1,003 |
| Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr | 1,506 | 1,316 |
| | 2,700 | 2,319 |

* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri.
**Yn cynnwys Brian Davies yn gyfwerth ag amser llawn am y pedwar mis fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro ac wyth mis fel Cyfarwyddwr.

### 8. COSTAU GWEITHREDU ERAILL AC INCWM ARALL

| Costau | 2019/2020<br>£'000 | 2018/2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau Uniongyrchol | 231 | 161 |
| Llety | 67 | 63 |
| Ymgynghoriaeth | 5 | 2 |
| Ffi Archwilio | 21 | 21 |
| Ailgodi tâl am Wasanaethau Chwaraeon Cymru | 157 | 144 |
| | 481 | 391 |

| Incwm | 2019/2020<br>£'000 | 2018/2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Grant UK Sport | 193 | 193 |
| | 193 | 193 |

### 9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

| | Offer<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2019 | 479 | 479 |
| Ychwanegiadau | 10 | 10 |
| Gwaredu | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 489 | 489 |
| | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2019 | (316) | (316) |
| Ffi ar gyfer y Flwyddyn | (40) | (40) |
| Gwaredu | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 | (356) | (356) |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020** | 133 | 133 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2019 | 163 | 163 |





### 9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER (PARHAD)

| | Offer<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2018 | 470 | 470 |
| Ychwanegiadau | 10 | 10 |
| Gwaredu | (1) | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 479 | 479 |
| | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2018 | (276) | (276) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (41) | (41) |
| Gwaredu | 1 | 1 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | (316) | (316) |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2019** | 163 | 163 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2018 | 194 | 194 |

### 10. MASNACH DERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Dyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Eitemau derbyniadwy eraill | 25 | 20 |
| **Dyledus o fewn mwy na blwyddyn** | | |
| Eitemau derbyniadwy eraill a rhagdaliadau | - | - |
| | 25 | 20 |

Yn gynwysedig yn yr eitemau derbyniadwy eraill mae dim (2018/2019 £14,000) yng nghyswllt benthyciadau heb log a wnaed dros gyfnod o 10 mlynedd.

| | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | - | - |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 25 | 2 |
| | 25 | 2 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | - | 18 |
| | 25 | 20 |

### 11. CRONFA DDOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL

| | Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £'000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | 15,541 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2018/19** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 14,463 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,350) |
| Adenillion Buddsoddi | 74 |
| Incwm Gweithredu Arall | - |
| Adfer grantiau | - |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (63) |
| Cost Pensiwn | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | 14,665 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2019/20** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,133 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,700) |
| Adenillion Buddsoddi | 77 |
| Incwm Gweithredu Arall | - |
| Adfer grantiau | - |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (148) |
| Cost Pensiwn | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 15,027 |

Mae'r balansau uchod yn cytuno â datganiad Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### 12. MASNACH TALADWY AC ATEBOLRWYDD CYFREDOL ARALL

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Chwaraeon Cymru | 1,667 | 1,040 |
| Croniadau | 22 | 21 |
| | 1,689 | 1,061 |
| | **31 Mawrth 2020 £'000** | **31 Mawrth 2019 £'000** |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 1,667 | 1,040 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | - | - |
| | 1,667 | 1,040 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 22 | 21 |
| | 1,689 | 1,061 |



CHWARAEON CYMRU

### 13. DADANSODDI NEWIDIADAU MEWN ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | 2019/2020 £'000 | 2018/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Fel ar 1 Ebrill | 198 | 573 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 252 | (375) |
| Fel ar 31 Mawrth | 450 | 198 |

Cedwir yr holl arian parod mewn cyfrifon banc masnachol.

### 14. ATEBOLRWYDD WRTH GEFN

Ac eithrio'r atebolrwydd grant wrth gefn, a ddatgelir yn Nodyn 4, nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn arall ar 31 Mawrth 2019 ac ar 31 Mawrth 2020 oedd angen ei ddatgelu.

### 15. ASEDAU WRTH GEFN

Mae gan y Llywodraeth gytundeb rhannu elw gydag Awdurdod Llundain Fwyaf. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi hawl i'r DCMS i hyd at £675m – y swm a gyfrannwyd o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol tuag at gost cynnal Gemau Llundain 2012. Bydd yr arian a dderbyniwyd fel rhan o'r cytundeb rhannu elw yn cael ei ddychwelyd i'r Cyrff Dosbarthu Elw. Mae ad-dalu'r arian hwn yn dibynnu ar werthiant tir a sut bydd elw'n cael ei ddyrannu fel y nodir yn y cytundeb yn 2012 gydag Awdurdod Llundain Fwyaf.

### 16. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Safon Cofnodion Ariannol Rhyngwladol 7 : Offerynnau Ariannol yn dweud ei bod yn ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i rôl.

### RISGIAU HYLIFEDD

Yn 2019/20, deilliodd £16,133,000 neu 98.2% o'r incwm o'r Loteri Genedlaethol (2018/19: £14,463,000 neu 94.7%). O'r incwm a oedd yn weddill, deilliodd £77,000 neu 0.5% o'r adenillion buddsoddi o'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, (2018/19 £74,000 neu 0.5%), a £213,000 neu 1.3% o incwm amrywiol (2018/19: £731,000 neu 4.8%). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei Gronfa Loteri yn wynebu unrhyw risg hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r elw a ragwelir yn y dyfodol o'r Loteri yn ddigonol i fodloni ei ymrwymiadau caled.

### RISG CYFRADDAU LLOG

Buddsoddir asedau ariannol y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel, fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw reolaeth dros fuddsoddi Cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cedwir y balansau arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa, i dalu'r ymrwymiadau grant a'r costau gweithredu, mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol mynediad ar unwaith. Rhoddodd y cyfrif hwn gyfradd llog o 0.50% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (2018/19 0.50%). Roedd balans yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £450,000 (2018/19 £198,000). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei swyddogaeth Loteri yn wynebu risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

### RISG ARIAN TRAMOR

Nid yw swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru yn wynebu unrhyw risg o ran arian tramor.

### 17. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

#### CYRFF CYHOEDDUS

Cyllidir gweithrediadau Loteri Chwaraeon Cymru gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol drwy gyfrwng yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig.

#### UNIGOLION

Talodd y Loteri grantiau yn ystod y flwyddyn i nifer o sefydliadau y bu i'r aelodau a'r uwch staff ddatgan diddordeb ynddynt ac mae'r rhai sy'n cael eu hystyried yn sylfaenol i'w gweld isod. Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

| Panel Aelodau | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| **S Powell** Prif Weithredwr | Undeb Hoci Cymru | 249 | Aelod | - |
| **J Sheppard** Aelod o'r Cyngor | Pêl Rwyd Cymru | 275 | Mam – Cyflogai Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru | - |
| **J Sheppard** Aelod o'r Cyngor | Badminton Cymru | 149 | Chwaer - Cadeirydd Badminton Cymru | - |
| **J Sheppard** Aelod o'r Cyngor | Undeb Rygbi Cymru | 172 | Tad - Swyddog Gemau gydag Undeb Rygbi Cymru | - |
| **J Sheppard** Aelod o'r Cyngor | Undeb Golff Cymru | 245 | Chwaer - Aelod o'r Bwrdd | - |
| **R Parks** Aelod o'r Cyngor | Chwaraeon Eira Cymru | 45 | Llysgennad | - |
| **G Williams** Cyfarwyddwr Corfforaethol | Pêl Rwyd Cymru | 275 | Plant yn Aelodau | - |
| **B Davies** Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | Gymnasteg Cymru<br>Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 673<br>195 | Cymar yn Hyfforddwr<br>Cynrychiolydd Chwaraeon Cymru ar Fwrdd CGGC | -<br>- |
| **I Bancroft** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir y Fflint | 18 | Cyn Gyflogai | - |
| **I Bancroft** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 23 | Prif Weithredwr | 3 |
| **S Morgan** Rheolwr, Plas Menai | Yr Urdd | 286 | Merch yn aelod | - |
| **M Veale** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Benfro | 19 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio | 22 |
| **M Veale** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 72 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau | - |
| **P Britton** Aelod o'r Cyngor | Chwaraeon Anabledd Cymru | 904 | Cyn Gadeirydd | 2 |





| Panel Aelodau | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| **P Britton** Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru | 3 | Brawd yn Aelod Pwyllgor | - |
| **P Tilley** Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Triathlon Cymru | 193 | Aelod | - |
| **P Tilley** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Fynwy | 2 | Aelod o Banel y Gist Gymunedol | - |
| **R Begum** Aelod o'r Cyngor | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 78 | Cyflogai | - |

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor:

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 74 i 79.

### 18. PENSIYNAU

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri yn unol â nodyn 1.5. Ar gyfer 2019/20, mae hwn yn 25% i Gyfrifon y Loteri a 75% i Gyfrifon Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £2,000,000 o gyfraniad pensiwn yn 2019/20 (2018/19 £1,920,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £1,059,000 sy'n cynrychioli 24.2% o gyflog pensiynadwy (2018/19 £1,006,000 24.2%)
- Nid oedd unrhyw gyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2019/20 (2018/19 dim)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £941,000 (25% wedi'i dalu gan y Loteri), (2018/19 £914,000 gyda 24% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2020/21 ymlaen fydd 32.8%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £2,110,000 at y gronfa yn 2020/21, sy'n cynnwys cyfraniad tuag at ddiffyg pensiwn o £636,000. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £290,000 gyda £218,000 (2018/19 £258,000) wedi'i

ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £73,000 (2018/19 £82,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Y gost actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £1,030,000 gyda £773,000 (2018/19 enillion o £441,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £258,000 (2018/19 enillion o £139,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Yr atebolrwydd pensiwn llawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £14,030,000, gyda £10,754,000 (2018/19 £9,891,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £3,277,000 (2018/19 £2,989,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri. Mae atebolrwydd pensiwn y Loteri wedi'i addasu £231,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif y Loteri gyda'r £231,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r atebolrwydd pensiwn yng nghyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i anwadalrwydd amodau'r farchnad, mae'r adroddiadau prisiad diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisiad sylfaenol mewn perthynas â buddsoddiadau eiddo wedi'u pwlio a reolir ar ran y gronfa bensiwn fel ar 31 Mawrth 2020.

Cyfanswm gwerth y buddsoddiadau hyn sydd wedi'u heffeithio ar 31ain Mawrth 2020 yw £106.746m ac, o'r swm hwn, gellir priodoli £2.348m (2.2%) i Gyngor Chwaraeon Cymru. O'r £2.348m, mae £1.761m wedi'i briodoli i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r gweddill o £0.587m yn briodoladwy i'r Loteri.

### PRIF RAGDYBIAETHAU ARIANNOL

| | 31 Mawrth 2020 % | 31 Mawrth 2019 % | 31 Mawrth 2018 % |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Gostyngiad | 2.3 | 2.4 | 2.6 |
| Chwyddiant – CPI | 1.9 | 2.2 | 2.1 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau | 1.9 | 2.2 | 2.1 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 1.9 | 2.2 | 2.1 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau | 2.9 | 3.2 | 3.1 |
| Rhagdybiaethau Marwoldeb: | Blynyddoedd | Blynyddoedd | Blynyddoedd |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| - Dynion | 22.2 | 22.4 | 23.1 |
| - Merched | 24.6 | 24.8 | 25.8 |
| Future lifetime from age 65 (aged 45 at accounting date) | | | |
| - Dynion | 23.2 | 23 | 24.2 |
| - Merched | 26 | 25.9 | 27.2 |

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2020.

### DADANSODDIAD O SYMUDIADAU'R GWARGED (DIFFYG) YN YSTOD Y FLWYDDYN

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r gronfa | 44.37 | 47.09 |
| Gwerth presennol yr atebolrwydd | (58.40) | (59.97) |
| (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | (14.03) | (12.88) |





### DADANSODDIAD O'R SWM A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHOSTAU GWEITHREDU

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.57 | 1.39 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.26 | 0.00 |
| Cost llog | 0.29 | 0.34 |
| Treuliau wedi'u cydnabod | 2.12 | 1.73 |

### AILFESUR SYMIAU CYDNABYDDEDIG MEWN GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Adenillion ar asedau cynllun mwy na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net | 5.10 | (1.88) |
| Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol | (2.52) | 3.63 |
| Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig | (0.79) | (2.42) |
| Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | (0.76) | 0.09 |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall | 1.03 | (0.58) |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig | 3.15 | 1.15 |

### NEWIDIADAU I WERTH PRESENNOL Y RHWYMEDIGAETH BUDDIANNAU PENDANT YN YSTOD Y CYFNOD CYFRIFO

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol | 59.97 | 56.52 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.57 | 1.39 |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant | 1.43 | 1.46 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.31 | 0.3 |
| Colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol | (2.52) | 3.63 |
| Colledion/(enillion)/actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig | (0.79) | (2.42) |
| Colledion actwaraidd ar atebolrwydd – profiad | (0.76) | 0.09 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.07) | (1.00) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad) | 0.26 | 0.00 |
| Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi | 58.40 | 59.97 |

### NEWIDIADAU I WERTH TEG YR ASEDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 47.09 | 42.87 |
| Incwm llog ar asedau | 1.14 | 1.12 |
| Ailfesur enillion ar asedau | (5.10) | 1.88 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 2.00 | 1.92 |
| Cyfraniadau gan y cyfranogwyr | 0.31 | 0.3 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.07) | (1.00) |
| Gwerth teg yr asedau wrth gloi | 44.37 | 47.09 |

### ADENILLION GWIRIONEDDOL AR ASEDAU

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 1.14 | 1.12 |
| Enillion actwaraidd ar asedau | (5.10) | 1.88 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | (3.96) | 3.00 |

### HANES GWERTHOEDD YR ASEDAU, GWERTH PRESENNOL Y RHWYMEDIGAETH BUDDIANNAU PENDANT A DIFFYG

| | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m | 31 Mawrth 2018 £m | 31 Mawrth 2017 £m | 31 Mawrth 2016 £m | 31 Mawrth 2015 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 44.37 | 47.09 | 42.87 | 40.34 | 31.35 | 30.40 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant | (58.40) | (59.97) | (56.52) | (53.03) | (41.36) | (42.57) |
| (Diffyg) | (14.03) | (12.88) | (13.65) | (12.69) | (10.01) | (12.17) |

### 19. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD YN ÔL

Mae pandemig byd-eang Covid-19 a’r cyfyngiadau symud dilynol a gyflwynwyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ôl wedi cael eu hymestyn ers hynny ac maent yn parhau i gyflwyno heriau ariannol sylweddol i Chwaraeon Cymru a’r sector chwaraeon ehangach. Er bod Chwaraeon Cymru yn eithriadol ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gyllideb gynyddol ar gyfer 2020/21, mae’r gost ariannol gynyddol o fodloni taliadau diffyg pensiwn, ynghyd â cholli incwm o gau ein dwy Ganolfan Genedlaethol yn ystod y cyfyngiadau symud hyn, yn parhau i fod yn her enfawr wrth geisio cyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Fel ymateb i’r risg i’r sector chwaraeon ehangach yn ystod 2020/21, drwy gyfuniad o gyllid Llywodraeth Cymru a’r Loteri Genedlaethol, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu Cronfa Cadernid Chwaraeon gwerth £8.5m i helpu i warchod y sector chwaraeon yng Nghymru rhag canlyniadau’r cyfyngiadau sydd wedi’u rhoi yn eu lle. Mae £550,000 pellach wedi cael ei neilltuo ar gyfer y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng sydd wedi’i thargedu at glybiau sy’n wynebu heriau sylweddol ac angen cefnogaeth ariannol ar unwaith.

Nid yw hyn wedi effeithio ar allu Chwaraeon Cymru i weithredu ar sail busnes gweithredol ac nid oes unrhyw addasiadau wedi’u gwneud i’r datganiad o gyfrifon.

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol.



CHWARAEON CYMRU

CHWARAEON CYMRU